# Y CARDI BACH

Papur Bro Dyffryn Taf

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 466 | Tachwedd-Rhagfyr 2025 | Pris £1.50


## Bysiau Jones Login yn dathlu 60 mlynedd mewn busnes

Ar 14eg Hydref 2025, dathlodd Jones Login ei ben-blwydd yn 60 oed.
Yn dilyn marwolaeth Idwal Jones ym 1964, a oedd mewn partneriaeth â Clodwyn Thomas yn rhedeg Precelly Motors, penderfynodd mab Idwal, sef Arwel, a'i wraig Ann, ddechrau eu busnes bysiau eu hunain yn Login, gyda chymorth y brodyr Aerwyn ac Alun.
Dewiswyd y lliw glas "turquoise" nodweddiadol gan Aerwyn, ac mae hyd heddiw yn parhau i fod yn lliwiau'r fflyd gydag edrychiad modern newydd ar eu choets diweddaraf a brynwyd ar gyfer teithiau 2025 a'r dyfodol.




Dros y blynyddoedd mae'r cwmni wedi darparu cludiant ysgol lleol, llogi coetsys, gwib-deithiau, seibiannau byr a gwyliau drws i ddrws ledled y Deyr nas Unedig, Ewrop a'r byd.



Heddiw, Endaf a Hannah (mab a merch-yng-nghyfraith Arwel ac Ann) sy'n rhedeg y busnes, gydag Arwel yn dal i fod yn weithgar ac i lawr yn y depo bob dydd, gan gadw llygad barcud ar yr hyn sy'n digwydd, er ei fod erbyn hyn yn 85 oed! Mae Ann hefyd, o bryd i'w gilydd, yn dal i ateb y ffon yn y swyddfa, pan mae pawb arall mas yn gyrru.
Hoffai'r teulu ddiolch i'r holl staff a chwsmeriaid ffyddlon sydd wedi'u cefnogi dros y blynyddoedd ac maent yn edrych ymlaen at y 60 mlynedd nesaf!
I ddathlu'r cyflawniad hwn ac fel diolch i'r holl gwsmeriaid sy'n teithio, mae pob taith, seibiant byr a gwyliau a hysbysebwyd yn ystod 2025 wedi cynnwys raffl am daleb teithio. Hyd yn hyn mae talebau gwerth mwy na £1000 wedi'u hennill, gyda sawl taith i'w cynnal eto cyn diwedd y flwyddyn, mae cyfle o hyd i ymuno â'r dathliadau. Mae croeso i chi gysylltu gyda ni yn Gymraeg neu Saesneg. Mae'r Cardi Bach yn llongyfarch Jones Login ar gyrraedd carreg filltir nodedig ac yn dymuno bob llwyddiant iddynt eto



### Noson lansio llyfr "Dal i fod yn fi" gan Mari Grug

Daeth tyrfa niferus ynghyd i Gaffi Beca ar nos Wener, Hydref 17eg i lansio llyfr Mari Grug "Dal i fod yn fi". Braf oedd gweld nifer o`r teulu, ffrindiau, cymdogion cyn athrawon a chyd weithwyr yn cefnogi Mari ar y noson. Parhad ar tudalen 34

### Noson Lansio llyfr 'Bachu Cyfle' gan Ifan Phillips

Nos Wener, 24ain o Hydref yng Nghlwb Rygbi Crymych, cynhaliwyd noson arbennig i ddathlu lansiad llyfr newydd Ifan Phillips sef 'Bachu Cyfle'. Yn llywio'r noson yn gelfydd iawn oedd y sylwebydd chwaraeon profiadol Wyn Gruffydd ac yntau hefyd a fu'n gyfrifol am arwain y sesiwn holi ac ateb gydag Ifan - sesiwn emosiynol iawn i bawb a oedd yn bresennol. Parhad ar tudalen 33

**Nadolig Llawen**
**a**
**Blwyddyn Newydd Dda**
**i holl**
**ddarllenwyr**
**y Cardi Bach**

**PWYSIG**
Er mwyn hwyluso'r broses olygu a chysodi gofynnir yn garedig i chi ddanfon eich newyddion i fewn erbyn yr 8fed o'r mis o hyn ymlaen.
Byddai o gymorth i ni hefyd petai'r gohebwyr yn danfon newyddion eu hardal i gyd gyda'i gilydd mewn un e.bost yn hytrach nag un darn o newyddion ar y tro. Diolch i chi i gyd am yr holl newyddion sy'n cadw'r Cardi Bach ar y cledrau.

**Y CARDI BACH**

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01231 231338 |
| **Cysodwyr:** | Jason a Gwen Lye-Phillips 07930 520564<br>46 Resevoir Road Tanerdy Caerfyrddin SA31 2ER |
| **Clonc a phosau** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr:**: | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marian Thomas 01994 230121 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **<u>10fed</u>** o bob mis, drwy e-bost i'r Cardi Bach.
e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.


Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.

# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, SanClêr*

Symudom i Sanclêr 20 mlynedd yn ôl, ac ar y pryd , roedd buddsoddiad sylweddol ar gynlluniau atal llifogydd yn y dref, Ar y cyfan, mae'r ardal wedi llwyddo i osgoi'r gwaethaf, yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, ond wedi iddi fwrw glaw'n ddi-baid am bron i ddeuddydd, doedd dim modd atal llif y dŵr nos Fawrth y 4ydd o Dachwedd. Wedi i'r glaw gilio yn hwyr nos Fawrth, daeth mymryn o ryddhad. Ond yna fe gododd lefel y dŵr yn frawychus o gyflym gan lifo i mewn i gartrefi a busnesau yn Sanclêr. Roedd dyfnder y dŵr ar bwys County Stores yn arswydus, heb sôn am gryfder y llif o gyfeiriad maes parcio'r Spar yn ogystal â chyfeiriad y prif faes parcio. A doedd dim dihangfa chwaith yng nghanol y dref wrth i afon Cynin orlifo a chodi i lefel y bont ei hun wrth siop sglodion Neil's.

Roedd y sefyllfa ar ei gwaethaf yn Hendy-gwyn. 48 awr ers cyfarfod blynyddol Y Cardi Bach yng Nghanolfan Hywel Dda, roedd yr ardal gyfagos o dan droedfeddi o ddŵr a phobl yn gorfod gadael eu cartrefi yng Nghoedlan Dewi Sant. Cyhoeddodd y gwasanaethau brys bod y sefyllfa yn argyfyngus yn y dref.

Mae'r trigolion sydd wedi byw yn yr ardal trwy eu hoes yn nodi na fu llifogydd fel y rhain ers 40 mlynedd.
Rydym yn meddwl am bawb sydd wedi dioddef ym mro'r Cardi Bach, ac sydd yn dal i gyfri'r gost, gan obeithio y bydd yr wythosau nesaf yn garedig o safbwynt y tywydd.

Ar nodyn mwy calonogol, roedd hi'n braf gweld bobl ifanc yr ardal yn cystadlu a chael llwyddiant yng Ngŵyl Cerdd Dant Cymru yn Aberystwyth ar ail benwythnos Tachwedd. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch. Gyda fy Mam, fe dreuliais oriau yno yn ystod y sesiwn hwyr, tan y perfformiad olaf un, a chael modd i fyw yn gwylio a gwrando ar y fath dalent. A llongyfarchiadau i Leisiau Tywi, sef y perfformiad olaf un toc ar ôl 11, ar ennill cystadleuaeth y Côr Cerdd Dant.

Erbyn i'r papur gael ei gyhoeddi, mi fydd prysurdeb y Nadolig wedi hen ddechrau, felly mwynhewch yr amrywiol weithgareddau a digwyddiadau sydd wedi eu trefnu yn lleol.
A phan ddaw - Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi ddarllenwyr y Cardi Bach !



Llifogydd SanClêr

## GOHEBWYR LLEOL

ALMA: Margaret Evans
01994 230761
BANCYFELIN: Trefina Jones
01267 211210
tjtrefina@aol.com
CAPELI BANCYFELIN a CANA
Parch. Beti-Wyn James
beti.wyn@icloud.com
BLAENWAUN: Tegwen James
01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun) Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
CEFNYPANT: Valerie Davies
01994 448475
vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN: Delyth Roblin
07882 639867
delythroblin@outlook.com
CWMBACH: Jane Evans
01994 448790
teulujames@btinternet.com
CWMFELIN MYNACH: Nansi Evans
01994 448392
EFAILWEN: Angharad Booth Taylor
01994 419221
angharad.boothtaylor@btinternet.com
GELLIWEN: Peter Crowdie
01994 230033
peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN: Heather Jenkins
01994 240138
jenkinsh2809@gmail.com
Tabernacl Heather Jenkns
Meryl James
meryljames534@btinternet.com
HENLLAN - FALLTEG: Sian Jackson
01994 240981
jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN a CWM MILES Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
LLANBOIDY: Norah Heseltine
01994 448241
sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO: Delyth Roblin
07882 639867
delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN: Eurfyl Lewis
01994 419495
eurfyllewis@btinternet.com
LLANGYNIN: Susan Phillips
01994 231066
siwperiw@gmail.com
MEIDRIM: Patsy Lewis
01994 230369
talarwen@hotmail.com
PENYBONT: Linda Davies
01994 484657
lindadavies02061955@icloud.com
PWLLTRAP: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID: Doreen Adams
01994 240581
RHYDWILYM: Eilir Davies
01994 419649
eilirtyrhos@btinternet.com
SAN CLER: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
TRELECH: Alyson Harries
01994 484359
alysonharries@outlook.com

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan Tudur Dylan*

Llifogydd Sir Gaerfyrddin

Yn ystod wythnos gyntaf Tachwedd eleni, roedd rhannau o Sir Gaerfyrddin o dan ddŵr. Roedd ardaloedd Hendygwyn, San Clêr a Chaerfyrddin wedi'i chael hi'n wael, gyda busnesau ac aelwydydd wedi dioddef. Doedd y rhybuddion ddim wedi rhagweld y byddai cymaint o ddifrod, a'r tro olaf y cafwyd cymaint o law â hyn oedd bron i ddeugain mlynedd yn ôl, ym mis Hydref 1987.

Bu'n bwrw glaw'n drwm yn yr ardal o fore gwyn tan nos ar Dachwedd 4ydd, ac erbyn iddi wawrio'r diwrnod canlynol, roedd holl effaith y dilyw i'w weld yn glir drwy'r sir. Dros y diwrnodau nesaf roedd degau o fusnesau bach a mawr yn gorfod clirio'r budreddi a lifodd i'w heiddo, a'r pressure washers yn cael defnydd helaeth. Defnyddio dŵr i lanhau olion dŵr.

Mae llifogydd yn gallu edrych yn hyfryd o'r awyr, fel petai rhyw lyn mawr wedi ymddangos dros nos. Ond dim ond trwy fod â'ch traed ar y ddaear, ac yn straffaglu mynd trwy'r dŵr budr, y gwelwch chi yr effaith go iawn.

Yn Nghaerfyrddin, mae Stryd y Cei o dan ddŵr yn flynyddol bron, ac mae'r busnesau yno wedi hen arfer â dygymod â'r anghyfleustra tymhorol. Ond roedd eleni'n wahanol. Roedd busnesau Pensarn a Llangynnwr hefyd wedi cael eu heffeithio, a'r dŵr wedi codi'n rhyfeddol o gyflym, fel nad oedd amser i symud yr eiddo i dir uwch.

Ydyn, mae afonydd Cynin, Dewi Fawr, Taf a Thywi wedi hen fynd yn ôl i'w gwlâu erbyn hyn, ac yn edrych yn hyfryd o ddiniwed, ond mae ôl y difrod yn aros. Byddai'n dda i ni gofio bod ambell i weithred, neu ambell i air a ddywedwn ni, yn gallu achosi difrod mawr i bobl. Ac er bod y weithred, neu'r gair, wed hen fynd heibio, mae ôl y difrod yn gallu para am amser hir. A does dim un pressure washer all gael gwared ar y difrod y tro hwnnw.



Llifogydd Tref Gaerfyrddin

# Colofn Llên

*gan Marian Thomas*

Buom ar fordaith lawr arfordir Ffrainc, Sbaen a Phortiwgal ddechrau'r hydref ac es â dwy nofel hanesyddol Gymraeg swmpus gyda mi. Doedd y gyntaf ddim yn gydnaws o gwbl â moethusrwydd y llong gan iddi gael ei lleoli yn ardal chwareli'r gogledd yn haf 1938. Cymerodd sawl pennod i mi ddechrau cael blas ar nofel gyntaf y cyn aelod seneddol Plaid Cymru dros Arfon, Hywel Williams, sef **Ceiri** - efallai oherwydd bod yr iaith yn gydnaws â'r cyfnod a'r ardal. Ond roedd yn wir werth dyfalbarhau. Mae cyfaddefiad gennyf fan hyn – na wyddwn ddigon am y cyfnod i wirio cywirdeb yr hanes ond dywedir mai stori ddychmygol sydd yma – er ceir cyfeiriadau at ddigwyddiadau hanesyddol megis llosgi'r ysgol fomio ym Mhenyberth. Dyma nofel arall a ddaeth yn agos at ennill gwobr Daniel Owen a hynny yn 2023.

Chwarel y Ceiri yw lleoliad y nofel er yn symud i goridorau pŵer Llundain ar dro lle mae cynllwynio gwleidyddol a blacmel ar adeg pan mae paratoi am ryfel. Elsbeth Cadwaladr yw'r prif gymeriad a'i thad sy'n wael wedi bod yn lladmerydd radical dros hawliau'r chwarelwyr yn y gorffennol. Mae perthynas rhyngddi â Guto y chwarelwr a Dafydd yr archaeolegydd academaidd sy'n gweithio gydag athro yn y brifysgol i gloddio'r safle. Prynir y chwarel gan gwmni o Lundain a phenodir rheolwr newydd arni gan fygwth swyddi a gwrthod caniatáu siarad Cymraeg ar sail diogelwch. Guto sy'n datgan, 'Rhyfel neu beidio, does ganddyn nhw na'u llywodraeth mo'r hawl i ddeud wrtha i pa iaith medra i siarad. Dyna udodd Saunders Lewis yn llys C'narfon..' Mab i weinidog yw Dafydd a cheir beirniadaeth o grefydd y cyfnod pan fu gweinidogion yn annog bechgyn i ymuno â'r fyddin. Oes, mae tipyn i gnoi cil amdano yma a'r arddull yn gyforiog o ymadroddion a geirfa'r chwarel gan ddarlunio bywyd y cyfnod yn hynod effeithiol tybiwn i gyda chyfeiriadaeth gyfoethog at gyhoeddiadau a diwylliant y cyfnod.

Yr ail nofel yw **Y Cylch Cyfrin** sy'n mynd â ni i fyd y syrcas. Tybed faint ohonoch fel minnau fyddai'n breuddwydio yn ein hieuenctid am ymuno â syrcas – minnau am berfformio ar gefn ceffyl! Dyna wnaeth yr awdur, Derfel Williams, gadael Porthmadog ac ymuno â Syrcas oedd yn chwilio am gyflwynydd dwyieithog. Ymunodd yn ddiweddarach â syrcas y teulu Fossett a threuliodd 11 mlynedd yn y byd teithiol hwnnw. Mae bellach yn gynhyrchydd radio gyda'r BBC. Fe fwynheais y nofel epig yma'n fawr sy'n rhychwantu tair cenhedlaeth, er bu'n rhaid troi yn ôl yn aml at y rhestr o gymeriadau a'r goeden deulu ar flaen y gyfrol i gofio pwy oedd pwy, yn enwedig gan fod Daniel, Dan a Danny yn brif gymeriadau. Ysgrifennwyd y penodau o safbwynt nifer o'r cymeriadau er yn y trydydd person. Dim ond un cymeriad sy'n siarad yn ei llais ei hun a Dilys yw honno. Gyda hi mae'r stori yn dechrau a hi gaiff y gair olaf ac eliffant yw Dilys! Mae hefyd yn neidio cyfnodau – o dridegau'r ganrif ddiwethaf yn Dresden, yr Almaen i Baris, Blackpool a Chymru yr wyth a nawdegau a'r presennol. Mae'n amlwg bod yr awdur yn adnabod byd y 'cylch llwch llif' a'r hanes adeg yr Ail Ryfel Byd yn ddirdynnol. Daeth newidiadau mawr i'r byd hwnnw wrth gwrs pan ddaeth diwedd ar anifeiliaid yn perfformio yn 'y cylch cyfrin sydd wastad yn troi.'

Mae fy rhestr Siôn Corn i yn barod gan obeithio bydd rhywrai yn cymryd sylw ohoni!

**Stori'r Iaith** a olygwyd gan Ceri Wyn Jones sydd ar ben fy rhestr i, sef hanes yr iaith Gymraeg o'i dechreuadau hyd at y presennol. Yn ail, **O'r Gwylltio, Gweithredu: Cyfrol Goffa Gareth Miles.** Roedd yr awdur, yr ymgyrchydd a'r comiwnydd hwn yn arwr i fy ngŵr a gyfrannodd atgofion ohono fel athro arno yn Ysgol Morgan Llwyd. Newydd ei chyhoeddi mae nofel dditectif ddiweddaraf John Alwyn Griffiths – **Dan Ormes** - delfrydol ar gyfer darllen rhwydd dros yr ŵyl. Os am ddos o chwerthin dyma dair nofel llawn hiwmor – **Yr Ail Briodas**, Marilyn Samuel, **60 Rhywbeth** gan Sioned Wiliam a **Dant am Ddant** , gan Cefin Roberts. Mynnwch amser i ddarllen ac ymlacio dros y Nadolig.

# Clonc a Phosau John Arfon

Hoffwn yn gyntaf ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch gan obeithio y bydd y flwyddyn sydd i ddod ychydig yn well na'r rhai blaenorol onide .

Fel y dywedais yn y rhifyn diwethaf, y tro hyn fydd y diwethaf i mi roi posau ichwi. Gobeithiaf yn fawr y daw rhywun arall i lenwi'r bwlch a rhoi amrywiaeth i'r papur. Yn anfodus mae'r golwg yn araf waethygu ac roeddwn byth a beunydd yn poeni fy ffrind Wyn Evans i gael ei gymorth. Hoffwn ddiolch o galon i Wyn am ei holl amynedd a'i barodrwydd bob tro i roi cymorth i mi a'm helpu allan o ddyfnderoedd iselaf y We ar y cyfrifiadur.

Wedi glaw difrifol ar y 3ydd a'r 4ydd o Fis Tachwedd cafwyd peth llifogydd yn ardal Hendygwyn. Un o'r llefydd a ddiofeddodd waethaf oedd Canolfan i bobl oedrannus Heol Dewi Sant, lle bu rhaid symud 48 o drigolion o'i cartrefi i ddiogelwch a hynny am 1,30 y bore. Rwy'n deall yn awr eu bod i gyd yn glyd a saff ac yn cael gofal mewn llety yng Nghaerfyrddin. Rhaid rhoi diolch i bawb a fu'n cynorthwyo i achub y rhai hyn o'u cartrefi ac yn enwedig criwiau tân yr Hendygwyn a'r cyffiniau fu wrthi yn achub y 48 o drigolion y ganolfan i ddiogelwch. Mae'n diolch yn fawr iddynt hwy a thrigolion y pentref a fu'n gwasanaethu er lles yr henoed. Cydymdeimlwn yn fawr hefyd ac eraill yn yr ardal sydd wedi cael dŵr i mewn i'w tai.

Yn anffodus bu'r wythnosau diwethaf eto yn greulon iawn i amryw o deuluoedd yr ardal sydd wedi colli annwyliaid. Estynnwn ein cydymdeimlad atoch i gyd yn enwedig ar yr amser hyn o'r flwyddyn

Hoffwn yn fawr longyfarch Mel Jenkins a Christine White, Hendygwyn ar eu priodas ychydig wythnosau yn ôl. Dymunwn pob hapusrwydd ac iechyd iddynt i'r dyfodol.

Hefyd, hyfryd oedd clywed y newyddion gwych fod Dafydd, mab Wyn a Meirwen yn gwella wedi ei ddamwain ddifrifol, ac wedi cael ei symud yn awr i Ysbyty Castell Nedd Port Talbot i dderbyn mwy o gyfleusterau i'w wella'n llwyr. Pob dymuniad da iti Dafydd, ac er fy mod yn gwybod dy fod eisiau dychwelyd gartref, ceisia fod yn amyneddgar i wneud yn siwr dy fod wedi gwella'n iawn, fel y byddi adref i ginio'r Nadolig gyda'th deulu.

**Dyma atebion cencen a chwilair y mis diwethaf**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| X | O | X | X | O | O |
| O | X | O | O | X | X |
| X | O | X | O | X | O |
| X | X | O | X | O | O |
| O | X | O | X | O | X |
| O | O | X | O | X | X |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | 6 | 3 | 9 | 7 | 4 | 1 | 2 | 8 |
| 8 | 9 | 2 | 5 | 1 | 8 | 6 | 4 | 3 |
| 1 | 8 | 4 | 2 | 6 | 3 | 5 | 7 | 9 |
| 7 | 3 | 9 | 4 | 2 | 6 | 8 | 5 | 1 |
| 2 | 8 | 5 | 7 | 3 | 1 | 4 | 9 | 6 |
| 4 | 1 | 6 | 8 | 9 | 5 | 2 | 3 | 7 |
| 9 | 4 | 5 | 1 | 8 | 7 | 3 | 6 | 2 |
| 6 | 7 | 8 | 3 | 4 | 2 | 9 | 1 | 5 |
| 3 | 2 | 1 | 6 | 5 | 9 | 7 | 8 | 4 |

**Dyma ddau arall i'ch diddori**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | X | O | | | X |
| | | | X | | |
| X | | | | X | |
| | | | | | O |
| | | | | | |
| O | | | | | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | | 4 | | 7 | | 5 |
| | 5 | | 8 | 3 | | | | 9 |
| 8 | | 6 | 7 | | | | | |
| | | 4 | | 7 | 1 | | 2 | |
| 6 | | | | | | | 7 | |
| | 1 | | 4 | 6 | | 9 | | 8 |
| | | | 2 | | 7 | 5 | | 3 |
| 9 | | | | 8 | 4 | | 1 | |
| 2 | | 3 | | | | | | |

**Dyma atebion posau y mis diwethaf**

Atebionn y cliwiau i'w rhoi yn y grid oedd:
1. Cyfnod, 2. Brechdanau, 3. Castell, 4. Gwanwyn, 5. Ymbiliwr, 6. Cymraeg, 7. Tristwch, 8. Dychwelyd, 9. Serennu, 10. Neges, 11.Damwain
Wedi ail-drefnu y llythrenau yn y blychau llwyd dylech gael yr ateb sef ***CADAIR IDRIS***

Croesair oedd yr ail bôs . Dyma'r atebion:
Ar Draws. 1. Stordy, 4. Cymro, 7. Dai Llanilar. 8. Egin, 9. Naomi, 11. Cymraeg, 13. Nodweddu, 115. Codwm, 17. Ataf, 18. Atgenhedlu, 20. Corgi, 21. Teclyn.
I Lawr. 1. Streic, 2. Rwan, 3. Yn Llawen, 4. Conan, 5. Mul, 6. Oerni, 7. Diamod, 10. Oddeutu, 12. Gorchest, 14. Unfarn, 16. Cranc, 16. Menai, 17. Alec, 19. Ger

Y trydydd pôs oedd cwblhau y Chwilrif Mawr.

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | 2 | 4 | 11 | 3 | 1 | 10 | 6 | 5 | 7 | 9 | 15 |
| 10 | 12 | 5 | 1 | 4 | 2 | 7 | 9 | 8 | 11 | 3 | 6 |
| 7 | 3 | 9 | 6 | 12 | 8 | 5 | 11 | 4 | 1 | 2 | 10 |
| 12 | 1 | 6 | 2 | 5 | 9 | 3 | 10 | 11 | 8 | 4 | 7 |
| 11 | 10 | 3 | 4 | 7 | 12 | 8 | 1 | 9 | 5 | 6 | 2 |
| 5 | 9 | 7 | 8 | 11 | 6 | 2 | 4 | 12 | 3 | 10 | 1 |
| 9 | 6 | 1 | 7 | 10 | 11 | 12 | 8 | 3 | 2 | 5 | 4 |
| 3 | 8 | 10 | 12 | 1 | 5 | 4 | 2 | 6 | 9 | 7 | 11 |
| 4 | 11 | 2 | 5 | 6 | 3 | 9 | 7 | 10 | 12 | 1 | 8 |
| 1 | 5 | 8 | 10 | 9 | 7 | 6 | 12 | 2 | 4 | 11 | 3 |
| 6 | 7 | 12 | 9 | 2 | 4 | 11 | 3 | 1 | 10 | 8 | 5 |
| 2 | 4 | 11 | 3 | 8 | 10 | 1 | 5 | 7 | 6 | 12 | 9 |


**Dyma dri pôs i'ch diddori dros yr Ŵyl**

**(a)** Pôs Chwilair yr Ŵyl
Ceisiwch ddarganfod yr holl enwau isod sydd wedi eu cuddio yn y grid. Cewch fynd ar draws neu i lawr, o'r chwith i'r dde neu dde i'r chwith yn groes. Os medrwch ganfod a chroesi allan y cyfan yn gywir dylech gael rhai llythrennau heb eu croesi allan. Os darllenwch y rhain mewn trefn o'r top i'r gwaelod, dylech gael ateb arall sydd a chysylltiad â'r Nadolig.

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | D | D | U | R | N | I | A | D | A | U | I | T | A | H | R | B |
| N | O | 0 | C | L | Y | C | H | A | U | G | O | U | E | O | E | U |
| R | L | G | E | M | W | R | F | I | S | W | R | R | C | T | C | G |
| H | E | E | W | T | I | A | F | T | A | Y | O | P | H | H | A | E |
| E | M | N | A | A | H | N | S | R | C | D | W | L | E | N | R | I |
| G | A | I | M | S | I | I | S | A | H | D | E | L | G | U | C | L |
| I | C | R | W | T | Y | R | O | P | I | H | W | Y | L | A | Y | I |
| O | C | O | E | D | E | N | J | N | E | Y | L | B | U | N | W | A |
| N | E | S | I | E | T | W | C | M | D | I | A | E | A | E | I | I |
| I | R | T | H | U | S | R | I | D | O | T | S | P | N | R | A | D |
| N | U | E | S | N | U | E | U | N | S | I | O | N | C | O | R | N |
| I | A | E | W | D | M | A | Y | I | E | G | I | L | O | D | A | N |
| A | I | A | A | O | L | L | O | F | G | L | M | Y | R | R | H | N |
| G | D | N | T | O | E | E | F | F | E | R | I | N | S | N | O | E |
| Y | R | N | R | C | E | I | R | W | N | L | L | E | T | Y | W | R |
| L | A | A | L | E | S | N | I | T | F | P | R | E | S | E | B | E |
| P | C | S | H | O | S | A | N | S | O | L | C | A | T | N | A | S |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addurniadau | Camelod | Coeden | Fferins | Iesu | Nadolig | Pebyll | Sion Corn | |
| Angylion | Cardiau | Cor | Gemwr | Ior | Nadu | Plygain | Stabl | |
| Anrhegion | Carolau | Cracer | Geni | Joseff | Neges | Preseb | Stwffin | Twrci |
| Asyn | Ceirw | Crud | Gwair | Lletywr | Ofn | Pwdin | Teisen | Uchelwydd |
| Aur | Celyn | Cyw Iar | Gwydd | Mair | Orenau | Sach | Thus | |
| Bethlehem | Clychau | Dawns | Herod | Mins Peis | Pantomeim | Santa Clos | Tinsel | |
| Bugeiliaid | Cnau | Doethion | Hosan | Myrrh | Parti | Seren | Tri | |

**(b)** Yr ail bôs yw datrys yr atebion a chwblhau Y Goeden Nadolig




Cymerir ch, dd, ff,m ng ac yn y blaen fel un llythyren

Ar Draws

2. Goleuni'r Nen (3)
3. Mae hwn yn dilyn cinio'r ŵyl (5)
5. Gŵyl y geni (7)
7. Gwasgaru grusial i ruthro allan (7)
12. Y grefft o greu cerddi (4,7)
14. Cynllun cudd dichellgar (7)
18. Pen y mynydd (4)
19. Dyma wna fore Nadolig gwyn (4)
20. Adar yn canu gyda'r wawr (3,1.3)
21. Anrhydedd cael cymdeithasu â'r saint (6)
22. Sbarduno neu brocio (8)
23. Cyfarchion os yn dilyn 5 ar draws (5)

I Lawr

1. Ceisio datrys rhywbeth anodd (8)
3. Haint marwol sy'n lledaenu (3)
4. Mab eich brawd neu'ch chwaer (3)
5. Cyfnod o dywyllwch wedi machlud (3)
6. Anwir neu anonest (3)
8. Aderyn cerdyn yr Ŵyl (5)
9. Nifer o wahanol rai (5)
10. Nid yw'r gwartheg hyn yn ddrwg (2)
11 . Person o Glunderwen (2)
13. Cnwd glas mewn caeau (5)
14. Ceir hon amser te yr Ŵyl (5)
15. Barrug gwyn (7)
16. Gwybodaeth yr angel i'r bugeilaiad (5)
17. Byw yn rhywle neu farw yn y De (5)

---

**(c)** Tybed a fedrwch gwblhau y Chwilrif X.

Mae pum grid yn y Chwilrif X, ac mae eisiau llenwi pob grid fel bo pob rhes a cholofn o'r blychau 3x3 yn cynnwys y rhifau o 1 - 9. Fe welwch fod y grid canol yn gorgyffwrth â'r gridiau o'i amgylch a dylai hynny fod o help ichwi. **Peidiwch a cheisio datrys pob grid yn eu tro oherwydd mae eisiau taclo y pôs yn gyfan os am lwyddiant.**

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | 8 | | 6 | | 1 | | | | | | | | 7 | | | 4 | | | 9 | |
| 1 | | | | | | 8 | 6 | 3 | | | | | 5 | | | | | | 6 | 3 |
| | | | 4 | | 3 | | 1 | | | | | 8 | | 2 | 3 | | 6 | | | |
| 3 | | 8 | | 7 | | | | | | | | | | | | 6 | 1 | 5 | | |
| | | | 5 | | | 7 | | 2 | | | | 7 | | 4 | | | 3 | | | 6 |
| 7 | | 5 | | | | 3 | | 9 | | | | | 8 | | 7 | | | .3 | | |
| | 4 | | | 2 | 5 | | | | | | 4 | | | 3 | | 1 | | 7 | | |
| | 7 | 2 | | | | | 3 | | | | 5 | | | | 8 | | | | 5 | 1 |
| | 3 | | | 6 | 8 | | | | | 7 | 9 | | | | | 7 | | 4 | | |
| | | | | | | | | | | | | 2 | 7 | 1 | | | | | | |
| | | | | | | | | 5 | | 2 | | 6 | | | | | | | | |
| | | | | | | 2 | 1 | 3 | | | | | | | | | | | | |
| | | 5 | | 2 | | | | | 5 | 6 | | | | | 1 | 8 | | | 6 | |
| 9 | 7 | | | | 8 | | | | 9 | | | | 1 | | | | | 3 | 8 | |
| | 4 | | | 7 | | 3 | | | 1 | | | | | | 7 | 3 | | | 1 | |
| | | 3 | | | 7 | | 4 | | | | | 5 | . | 9 | | | | 8 | | 3 |
| 8 | | | 5 | | | 2 | | 1 | | | | 2 | | 8 | | | 5 | | | |
| | | 2 | 8 | 1 | | | | | | | | | | | | 6 | | 7 | | 5 |
| | | | 3 | | 1 | 9 | | 4 | | | | | 2 | | 5 | | 8 | | | |
| 3 | 4 | | | | | | 1 | | | | | 6 | 3 | 7 | | | | | | 8 |
| | 5 | | | 4 | | | 2 | | | | | | | | 6 | | 3 | | 7 | 4 |

# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbot*

*Geirfa (i): beirniad*
*beirniad, beirniadu, beirniadol, beirniadaeth*
*Llenwch y bylchau*
*Dyw'r ___________ yma ddim yn un deg.*
*Roedd unfrydedd barn ymhlith y tri ___________.*
*Ddylai fe ddim ___________ rhywbeth nad yw'n ei ddeall.*
*Roedd pawb yn ___________ iawn o ymddegiad yr heddlu.*
*Mae nifer y ___________ wedi codi eleni.*

*Geirfa (ii)*
*Newidwch y gair mewn print bras a'i roi yn y bwlch yn y frawddeg.*
*SYN*
*Aeth gwefr o ___________ trwy'r dyrfa.*
*CARCHAR*
*Gwaeddodd y ___________ eto.*
*GWAITH*
*Dw i wedi bod ar y cyfandir hanner dwsin o ___________.*
*CYFRAITH*
*Mae bod yn briod â mwy nag un person ar yr un pryd yn ___________ yn y wlad hon.*
*DIOLCH*
*Ceisiodd ei berswadio i fod yn ___________.*
*MWYAF*
*Roedd y ___________ o blaid y cynnig.*

*Geirfa (i): Rhoi*
*rhoi, rhodd, ymroi, ymroddgar, rhoddion*
*Derbyniwyd ___________ hael tuag at y gronfa ymchwil.*
*Hoffwn i ___________ arian i apêl Barnardo.*
*Pan ymddeolodd y Pennaeth derbyniodd lawer o ___________.*
*Ers ymddeol y mae wedi ___________ i waith gwirfoddol yn yr ardal.*
*Mae fy nghydweithiwr yn gydwybodol ac yn ___________.*

*Geirfa: Tro*
*troellog, droeon, trobwynt, troëdigiaeth, troëdig*
*Rydw i wedi eu gweld nhw ___________ yn ddiweddar, o leiaf bedair neu bump o weithiau.*
*Awn i byth i weld y ffilm honno eto – roedd yn ___________.*
*Mae lôn gul, ___________ yn arwain at y tŷ.*
*Bu'r penderfyniad i ddysgu Cymraeg yn ___________ yn fy mywyd.*
*Cafodd William Williams, Pantycelyn ___________ tra'n gwrando ar Hywel Harris yn pregethu.*

***Parhad ar dudalen 31...***

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

Jones Login
Teithiau o Safon
Gwasanaeth o'r safon uchaf
Login, Hendy-gwyn ar Daf
Sir Gaerfyrddin. SA34 0UX
Ffôn: 1437 563277
info@joneslogin.co.uk
www.joneslogin.co.uk

DAVIES
Builders Merchants
Cyflenwyr ADEILADU a D.I.Y
Arddangosfa ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar agor



Ffon
Hendygwyn: 01994 240 228
San Cler: 01994 230 239
www.daviesbm.co.uk




HUW OWEN
CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937



# Cyfarfod Blynyddol Y Cardi Bach

**Dydd Sul, Tachwedd 2il 2025 am 4 y.p. yng Nghanolfan Hywel Dda**
Yn bresennol: Eurfyl Lewis (Cadeirydd), Rosemarie Davies, Wyn Evans, Iola Wyn, Gwen Lye-Phillips, Rhian White, Beti-Wyn James, Marian Thomas, Sian Jackson, Meinir Eynon

**Croeso**
Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Eurfyl Lewis, y Cadeirydd. Rhoddwyd croeso arbennig i Gwen, y cysodwr newydd.
Ymddiheuriadau : Meirwen Evans, John Arfon Jones, Heather Jenkins, Susan Phillips, Delyth Roblin.
Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 20 Hydref 2024
Pasiwyd bod y cofnodion yn gywir (cynnig – Rhian, eilio – Iola)

**Materion yn codi:**
Croesawyd Gwen a Jason fel cysodwyr newydd a diolchwyd yn ddiffuant i Wyn a Meirwen am eu holl waith dros y blynyddoedd.

**Adroddiad y Cadeirydd**
Diolchwyd i bob un sydd wedi cyfrannu at lwyddiant Y Cardi Bach dros y flwyddyn ddiwethaf, yn swyddogion, gohebwyr, hysbysebwyr, siopau sy'n gwerthu, clybiau chwaraeon a chynghorau Tref a Chymuned am eu holl waith a chefnogaeth. Argraffwyd 10 rhifyn eleni, y ddau rifyn olaf yn 44 tudalen yr un, y lleiaf yn ystod y flwyddyn yw 32 tudalen. Gwefan - mae Guto wedi bod yn rhoi rhifynnau ar y wefan ond bydd Gwen yn gwneud o hyn ymlaen. Mae Facebook yn arf da i ledaenu cyhoeddusrwydd hefyd.
Diolchwyd yn arbennig i Iola am ei cholofn golygyddol misol, a gobeithir y bydd yn fodlon cario ymlaen am ychydig wedi symud i fyw yng Nghaerdydd.
Diolchwyd i Llinos Mair am ei cholofn i'r plant. Prin yw'r cystadlu. Gofynwyd i Beti-Wyn gysylltu â'r ysgolion un ar y tro yn y tymor newydd gan eu cymell i gystadlu.

**Adroddiad y Trysorydd**
Paratowyd mantolen gan Rosemarie i'w thrafod. Mae cynnydd yn yr arian mewn llaw ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyda £6906.73 yn y cyfrif. Dydy ambell Gyngor Tref / Cymuned ddim yn cyfrannu. Derbyniwyd y cyfrifon fel rhai cywir (cynnig – Meinir, eilio – Wyn). Diolchwyd i Rosemarie am ei gwaith.

**Adroddiad y Cysodwyr**
Soniodd Gwen fod popeth yn newydd iddyn nhw ac mae llawer iawn o waith wrth gysodi. Mae angen cynllun i leihau'r gwaith golygu a chysodi. Gofynwyd am gael symud dyddiad cau derbyn newyddion nôl i'r 8fed o bob mis, bydd popeth yn cael ei ddanfon ar Word i Eurfyl er mwyn iddo olygu cyn bod Gwen a Jason yn cysodi. Bydd Beti-Wyn yn paratoi darn i'r Cardi Bach yn gofyn am y newyddion erbyn yr 8fed o'r mis.

Diolchwyd eto i Wyn a Meirwen am eu holl waith, dywedodd Wyn eu bod wedi mwynhau'r gwaith ond mae nawr yn amser pasio'r awenau ymlaen.

**Adroddiad y Clwb 200**
Mae 637 o aelodau eleni hyd yma, ychydig yn llai na'r amser hyn y llynedd. Mae'n newyddion da fod Banc HSBC ddim yn codi ffi rhagor. Cafwyd llog o £816.87 rhwng Hydref 2024 a Hydref 2025. Diolchodd Rhian i Wyn a Meirwen am eu holl gymorth a, hefyd, diolchodd i Gwen sydd wedi cynorthwyo ers Mis Medi.

**Ethol swyddogion**
Ail-etholwyd y swyddogion ond gan fod Iola Wyn yn symud i Gaerdydd cytunodd Marian lenwi swydd Is-gadeirydd.

**Trefniadau tynnu gwobrau Clwb 200**
Penderfynwyd tynnu'r gwobrau ar brynhawn Sul, Rhagfyr 7fed am 2 o'r gloch yng Nghanolfan Hywel Dda.

**Hamper Nadolig**
Mae cystadleuaeth yr hamper yn ymddangos ar Facebook ac yn gofyn i ddarllenwyr ateb cwestiwn am eu papur bro, hoffi a rhannu. Y llynedd bu Iola yn casglu nwyddau o ardal San Cler. Eleni cynigiodd Eurfyl drefnu'r hamper.

Wrth gau'r cyfarfod diolchodd Iola i Eurfyl am ei holl waith gyda'r Cardi Bach gan fynegi cydymdeimlad y Pwyllgor ar farwolaeth Jill yn gynt yn y flwyddyn.

# MERCHED Y WAWR

## Cangen Hendygwyn

Buon ni'n ffodus iawn i gael orig o amser prysur Bethan Picton Davies, ein Llywydd Cenedlaethol, yng nghyfarfod mis Hydref o Ferched y Wawr. Cyflwynwyd Bethan gan Pat Price,un o'n siaradwyr newydd, a rhoddodd fraslun o hanes ein Llywydd i ni. Cawsom wledd o luniau a straeon gan Bethan o'r amser pan fyddai'n mynd gyda'i mham i gangen MyW Sancler, ei helyntion fel aelod o FyW Ffynnongroes a'i balchder o gael ei urddo'n Lywydd Cenedlaethol yn Eisteddfod Wrecsam eleni. Esboniodd hefyd taw ei hymgyrch am y ddwy flynedd nesaf fydd i godi arian tuag at Ymchwil Canser Cymru.

Ann Lewis a Rose Saer fu'n paratoi'r te a'r byns ac fe groesawodd Margarette, Mair Bartlet
fel aelod newydd i'n plith. Diolchodd hefyd i'r aelodau i gyd am eu haelionu yn ei noddi i nofio deg hyd, yn y pwll yn Llety Cynin. Fe godwyd £700 i ymgyrch Hendygwyn ar gyfer Eisteddfod y Garreg Las. Dywedodd hefyd bod Jean Parri Roberts yn gwella ar ol ei chwymp yn ystod y benwythnos breswyl yng Nghaerdydd.

Bydd ein cyfarfod nesa ni ar Dachwedd 18fed, yn y Ganolfan am 3.30 pan ddisgwylir
Brian Jones, Castell Howell i ddod i'n diddori.



Dyma gangen Merched Y Wawr Hendy-gwyn ar Daf yn croesawu Bethan Picton-Davies sef Llywydd Cenedlaethol y mudiad i'w cyfarfod mis Hydref. Fe wnaeth Bethan gyflwyno hanes ei bywyd mewn ffurf cyflwyniad pwynt-pwer. Ar ôl priodi a symud o Sanclêr i Eglwyswrw, fe wnaeth Bethan ymuno gyda changen Merched y Wawr Ffynnongroes.

Mae gan Bethan a John ddau o blant sef Harri ac Esther ac erbyn hyn dau o wyrion sef Ioan a Dyfed. Mae gyrfa Bethan gyda mudiad Merched Y Wawr wedi bod yn daith brysur ac yn llawn profiadau a chyfleoedd niferus. Cafod Bethan ei hurddo yn lywydd cenedlaethol yn Eisteddfod Wrecsam mis Awst eleni. Elusen o ddewis Bethan yn ystod ei llywyddiaeth yw Ymchwil Canser Cymru. Dyma elusen sy'n ymroddedig i godi ymwybyddiaeth, cefnogi ymchwil a chynnig cymorth uniongyrchol i fenywod ledled Cymru sy'n cael eu heffeithio gan y clefyd.




**Bethan Picton-Davies sef Llywydd Cenedlaethol y mudiad.**

## Cangen Gronw

Ein gwestai ar brynhawn dydd Iau, Hydref 23ain oedd Mr Mike Thomas. Cafodd Mike ei eni yn Henllan Amgoed, a'i fagu yn Lôn Hywel, Hendygwyn. Mynychodd yr ysgol Gynradd a'r ysgol Ramadeg yn Hendygwyn cyn mynd i goleg Coventry, lle graddiodd mewn Hanes, Gwleidyddiaeth ac Economeg.

Ar ôl treulio gyrfa "hir ac amrywiol" fel gweithiwr cymdeithasol, mae Mike bellach yn ymddiddori mewn ysgrifennu creadigol ac wedi cyfuno hynny gyda'i ddiddordeb mewn hanes, yn benodol hanes Abaty Hendygwyn. Ar ddull ymson, fe roddodd i ni gipolwg o fywyd Mynachod Urdd y Sistersiaid fu'n byw yn yr Abaty, a hynny trwy lygad a llais yr Abad olaf cyn i'r Abaty gau ar orchymyn Harri'r 8fed yn yr unfed ganrif ar bymtheg.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD
a'i GWMNI
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

Cawsom ddarlun o feddyliau Wiliam ap Tomos, neu Wil Fain fel y'i gelwid, ar y diwrnod olaf hwnnw flynyddoedd maith yn ôl.

Am yn agos i bedwar can mlynedd, bu'r Abaty yn rhan bwysig o'n hardal ni. Cyfrannodd Urdd y Sistersiaid yn fawr i fywyd y Cymry ac i'r iaith Gymraeg. Cymraeg oedd eu hiaith, a chofnodwyd iddyn nhw siarad Cymraeg ar ymweliad ag abaty yn Iwerddon. Roedden nhw'n ffermwyr ymroddedig, ac yn fugeiliaid da i bobol yn ogystal ag i greaduriaid. Fe fydden nhw'n cynnig lloches i deithwyr ac yn edrych ar ôl meibion uchelwyr fyddai wedi cael eu niweidio ar faes y gâd er enghraifft.

Ymwelodd Gerallt Gymro ag Abaty Hendygwyn ar ei daith trwy Gymru gydag Archesgob Baldwin. Mae'n debyg nad oedd yr Abad a Gerallt wedi dod ymlaen yn dda!

Ychwanegodd Mike i'r Urdd Sistersiaidd gynnal dwy abaty i ferched – un yn Llanllŷr ger Llanbed, a'r llall yn Llanllugan ym Mhowys. Diolch iddo am brynhawn diddorol dros ben.

Edrychwn ymlaen at ddathlu y Nadolig yn "Becws Bets" ddechrau Rhagfyr.



**Mike Thomas yng nghwmni Val Davies y llywydd a'r ysgrifennydd Meinir Eynon.**

## Cangen SanClêr

Cyfarfu'r aelodau yn Yr Hen Ysgol ar Hydref 14eg. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Eileen. Dymunwyd yn dda i Ann Morris sydd wedi symud i fyw i Bwll Trap. Gorchwyl bleserus oedd gan Eileen i wneud Nest a Sally yn aelodau anrhydeddus o'r gangen. Roedd y ddwy ymysg sylfaenwyr y gangen nôl yn 1971, Nest yn ysgrifennydd a Sally yn aelod o'r pwyllgor gwreiddiol.

Yn anffodus, oherwydd afiechyd, doedd Nest ddim yn medru bod yn bresennol ond fe gyflwynodd Eileen flodau i Sally. Yna treuliwyd y noson yn paratoi ac ymarfer tuag at noson Cracyr Nadolig y Mudiad. Bydd cangen SanClêr yn paratoi eitem i gynrychioli'r rhanbarth eleni. Mwynhawyd paned a chacennau hynod o flasus a baratowyd gan Sue o'r Hen Ysgol. Rhoddwyd gwobr raffl gan Rita ac fe'i henillwyd gan Rhian.



**Eileen yn cyflwyno blodau i Sally.**

**Clwb Darllen**

Bu aelodau'r Clwb yn trafod cyfrol fuddugol Y Fedal Ryddiaeth yn Eisteddfod Wrecsam ar Hydref 20fed. Bu tipyn o drafod a chymysg oedd y barn am y straeon byrion. Bydd y Clwb Darllen yn cyfarfod nesaf ar Ragfyr 2il i drafod "Casglu Llwch" gan Georgia Ruth. Croeso i aelodau newydd.


Preseli Services Cyf
Llanddewi Efelffre, Arberth. SA67 7PD
Oil4Wales
Olew dros Gymru
CERDYN TANWYDD
preselistorage Ltd

R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN
Canolfan atgyweirio ceir

Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

**Cwis Hwyl**

Teithiodd dau dîm o'r gangen i neuadd Capel y Tabernacl, Pencader, ar nos Wener, Tachwedd 7fed i gystadlu yng Nghwis Hwyl Cenedlaethol Merched y Wawr. Roedd yn gystadleuaeth agos a llongyfarchiadau i 'r ddau dîm am wneud mor dda. Enillwyd y cwis yn Rhanbarth Caerfyrddin gan y tîm B (Pat, Iona a Beti-Wyn) gyda 80 o farciau, tra fod y tîm A (Lilwen, Marian a Rhian), yn gorffen yn 2il un pwynt ar eu hôl. 83 o bwyntiau oedd gan gangen Pontypridd a enillodd yn genedlaethol. Dyma lun o ddau dîm San Cler yn derbyn y tlws oddiwrth Gwyneth Alban, Llywydd y Rhanbarth. Yn y llun hefyd mae Jane Morgan, Swyddog Datblygu'r Rhanbarth.



## Cangen Beca

Cawsom brynhawn hyfryd yng nghwmni Nia Davies a ddangosodd sut i addurno torch ac hefyd trefniant hyfryd i roi ar fwrdd. Braf oedd clywed ei hanes wrth iddi drefnu'r blodau.
Braf hefyd oedd cael croesawu dwy aelod newydd atom, sef Mary Edwards a Rhoswen Williams.
Mis Rhagfyr edrychwn ymlaen i ddathlu'r Nadolig drwy gael cinio yng Nghaffi Beca.



**Dym lun o Nia Davies gyda'r torchau.**

## CYFARFODYDD HANNER BLYNYDDOL GYMANFA BEDYDDWYR CAERFYDDIN A CHEREDIGION 2025

Cynhaliwyd Cyfarfodydd hanner blynyddol Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion ar ddydd Mercher, Hydref 22ain yng Nghapel Providence, Cwmdu. Pentref ynghanol cefn gwlad Sir Gâr yw Cwmdu a chafwyd yno groeso cynnes wrth iddynt groesawu'r cyfarfodydd gan mai ysgrifennydd Providence, Dawn Richards yw Llywydd y Gymanfa.
Croesawyd pawb gan weinidog yr Eglwys y Parch Mary Davies a'r Parch John Treharne, Llwynhendy, cyn llywydd y Gymanfa arweiniodd y defosiwn.
Derbyniwyd nifer o ymddiheuriadau am absenoldeb sawl un o'r ffyddloniaid am amrywiol resymau a thrafodwyd materion yn ymwneud â'r Gymanfa yn cynnwys diweddariad gan Dr Christian Tucker-Williams, Undeb Bedyddwyr Cymru ar y datblygiadau sydd ar waith ar hyn o bryd i droi'r Cymanfaoedd yn gyrff elusennol rhanbarthol.

Y siaradwr gwadd oedd Paul Kennedy sy'n rheolwr ar Cefnogi - elusen sydd wedi ei sefydlu yn Rhydaman ac yn gwasanaethu fel banc bwyd a chanolfan i gefnogi rhai sy'n dioddef o dlodi a sefyllfaoedd anodd eraill. Roedd yn agoriad llygad i wybod bod cymaint o gefnogaeth ar gael ond eto tristwch y sefyllfa fod angen y math yma o sefydliad yn ein gwlad ond diolch amdanynt.
Diolchwyd yn gynnes i Paul am ei anerchiad gafaelgar a da oedd gallu cyfrannu casgliad y dydd tuag at y gwaith pwysig mae Cefnogi yn gwneud yn estyn llaw i'r rhai sydd mewn angen.

Yn dilyn cyfle i gymdeithasu o gwmpas y byrddau, cynhaliwyd yr oedfa bregeth o dan lywyddiaeth Dawn Richards. Gweinidog Eglwys Ebeneser, Rhydaman, y Parch John Talfryn Jones oedd y pregethwr gwadd a'r rhannau arweiniol yng ngofal ei briod Einir Jones. Cafwyd pregeth rymus ac amserol ganddo i gloi'r cyfarfodydd ac edrychwn ymlaen at gael teithio'n ôl i'r ardal fis Mai nesaf ar gyfer y cyfarfodydd blynyddol yng Nghapel Ebeneser, Llandeilo.

### Cyfraniadau

**Winnie James-Phillips - £20**

**Irfon ac Ann Phillips, Swyn y Wawr, Blaenwaun - £10**

# BANCYFELIN


**Diolch**

Dymuna Terry, Cennydd, Catrin a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad wedi marwolaeth Merle. Casglwyd swm yn agos i £1800, sy'n cael ei rannu rhwng y Tîm Lliniarol a Thîm Ymateb Aciwt Ysbyty Glangwili, trwy law Cynghrair Cyfeillion yr Ysbyty. Diolch yn fawr iawn.

**Llifogydd**

Fel llawer ardal arall ym mro'r Cardi Bach dioddefodd pentref Bancyfelin effaith llifogydd dydd Mawrth, Tachwedd 4ydd. Ar un adeg roedd yn anodd cyrraedd y pentref gan fod dŵr wedi lledu ar draws yr heol yn ardal Pontgoch, Cana a'r Werndale. Meddyliwn am bawb a ddioddefodd yn ystod y llifogydd. Diolch i Dean o'r Swyddfa Bost am y llun o'r llif o dan y bont.





**Sanclêr Shed**

Mae rhai o aelodau y Sanclêr Shed wedi bod wrthi eto yn y pentref. Y tro yma, maent wedi trwsio un o'r meinciau sydd lan yn Lôn Cywyn a hynny ar gais Cyngor Tref Sanclêr. Talwyd am y deunyddiau gan y Cyngor Tref, ond sgiliau'r dynion ddaeth yn amlwg wrth iddynt fynd ati i'w thrwsio ac mae'r gwaith yn safonol. Mae'r fainc werth i'w gweld nawr a bydd nifer yn cael pleser o eistedd arni yn y dyfofol. Diolch o galon Sanclêr Shed. Rydym fel cymuned yn gwerthfawrogi eich llafur.



**Yr hen fainc cyn cael ei thrwsio.**

**Y fainc newydd.**



**Henoed Bancyfelin**

Cafwyd prynhawn diddorol dros ben yn ein cyfarfod mis Hydref, gyda Delyth Robinson yn egluro sut mae wedi arall gyfeirio ar ei fferm a mynd ati i greu sebon allan o laeth. Enw'r busnes yw Mootiful. Pwy feddyliai bod hynny'n bosibl?

Diolch i'r Fox am y croeso arferol a'r lluniaeth.



**John Hancock, yr Is- gadeirydd, Delyth Robinson a Mai Thomas yr ysgrifenyddes.**

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartedig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG
MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 11B, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444
e-bost: sales@crymychbuildingsupplies.co.uk

**Capel Cana**

Dychwelodd y Parchg Beti Wyn o gynhadledd yng Ngwlad Thai lle buodd yn cynrychioli Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Cyflwynwyd rhodd fechan ganddi i blant Ysgo Sul Cana fel arwydd o gyfeillgarwch (neges o wlad Thai)



Hyfrydwch oedd croesawu aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Penybont i Gapel Cana ar nos Lun, 3ydd Tachwedd ar gyfer eu Gwasanaeth Diolchgarwch. Cymerwyd ran gan nifer o aelodau'r Clwb dan gadeiryddiaeth Lowri Powell, a chyflwynwyd anerchiad gan y Parchg Beti Wyn.



**Aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Penybont**

Yn dilyn ynweliad diweddar â Fferm Brymenda fel rhan o brosiect bwyd Sir Gâr, cafodd rhai o aelodau Cana gyfle i ymweld a'r Egin i weld ffrwyth y prosiect cyfan. Diolch i Lowri Siôn am drefnu ac i bawb a fu ynglyn â'r prosiect.



**Aelodau o Gapel Cana gyda Lowri Siôn**

**Capel Bancyfelin**

Dathlwyd y Cynhaeaf yng Nghapel Bancyfelin eleni gyda chwrdd pregethu yng nghwmni Mrs Llinos Jones gyda swper blasus i ddilyn. Yna, cynhaliwyd oedfa ddiolchgarwch deuluol ar Sul, 12fed Hydref. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfranodd tuag at yr Wyl ym mhob ffordd ac am y rhoddion i Fanc Bwyd Caerfyrddin.



**Gibeon, Bancyfelin**

Ar fore Sul, Hydref 19eg cynhaliwyd Oedfa Ddiolchgarwch dan ofal yr Ysgol Sul. Roedd yn fore gwyntog a gwlyb iawn ond braf oedd croesawu cynulleidfa luosog i'r gwasanaeth. Bu ieuenctid yr Ysgol Sul yn cyflwyno hanes "Porthi'r Pum Mil" ac egluro pa mor bwysig yw hi i rannu'n deg. Cafwyd dwy gân hyfryd ganddynt "Ti sydd yn rhoddi'r cynhaeaf" a "Digon i bawb". Cafwyd anerchiad gan Beti-Wyn a fu'n son am y darlun gan Verrochio "Tobias a'r angel" a'r stori yn yr Apocryffa. Diolch i'r ieuenctid am eu gwaith, i Meirion am wneud y darlleniad ac i Hilary a fu'n cyfeilio. Ar ôl yr oedfa mwynhawyd sgwrs dros baned. Diolch i'r rhai a fu'n gweini'r lluniaeth.

Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost: enquiries@allpump.co.uk

DAIL PREN
Crefftwaith pren, arwyddion a gwaith ysgythru laser
Tomos Lewis
dailpren.co.uk | dailpren@hotmail.com



**Plant Ysgol Sul Gibeon**

**Sefydliad y Merched Bancyfelin**

Yn ystod eu cyfarfod ym mis Hydref, mwynhaodd aelodau Bancyfelin ymweliad pleserus â Bodlon yn Ffynnonddrain, lle croesawyd hwy'n gynnes gan y perchennog, Nia.

Rhoddodd Nia sgwrs ddiddorol a phersonol am ei theulu, gan rannu cefndir ei rhieni a'i hynafiaid, a sut y sefydlon nhw siopau yn y Cymoedd ac yng Nghaerfyrddin, a adnabyddid yn lleol gan bawb fel "Siop y Seld." Roedd yn ddiddorol clywed sut y datblygodd y busnes dros y blynyddoedd ac am y cysylltiad cryf sydd gan y teulu â'r ardal.

Ar ôl y sgwrs, cafwyd cyfle i fwynhau te a chacennau hyfryd, cyn crwydro o gwmpas y siop sy'n arbenigo mewn anrhegion unigryw, nwyddau cartref ac ategolion o Gymru, Ewrop a thu hwnt. Diolchodd y Llywydd, Mrs Hilary Evans, i Nia am noson ddifyr ac addysgiadol iawn.

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y gangen ar 3ydd o Dachwedd 2025 yn Neuadd y Pentref, a chafwyd presenoldeb da gan yr aelodau. Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer y flwyddyn i ddod:

- Llywydd: Mrs Hilary Evans
- Is-lywydd: Mrs Anne Davies
- Ysgrifennydd: Mrs Julie Lakey
- Trysorydd: Mrs Sian Thomas
- Ysgrifennydd Cofnodion: Mrs Meinir Walters
- Gohebydd y Wasg: Mrs Eleri Walters

Cytunwyd ar raglen amrywiol a diddorol ar gyfer y flwyddyn nesaf, gyda phob aelod yn cymryd cyfrifoldeb am drefnu gweithgareddau mis penodol. Y digwyddiad nesaf fydd y Cinio Blynyddol, a gynhelir ar 22ain Tachwedd 2025 yn Nghlwb y Cwins, Caerfyrddin. Yn dilyn hynny, cynhelir cyfarfod mis Rhagfyr ar 1af Rhagfyr, pan fydd pob aelod yn paratoi Trefniant Bwrdd Nadolig, dan arweiniad dwy o'n haelodau, sef Meinir a Gill.



**Sefydliad y Merched Bancyfelin**

## CEFNYPANT

Llongyfarchiadau a penblwydd hapus iawn yn 50 oed ar 10fed o Dachwedd i Hayley gynt o Llwynllwyd, Cefnypant. Cariad mawr wrth Dad, Mam ar teulu i gyd.

## LLANGLYDWEN

**Gwellhad**

Dymuniadau gorau i Elidyr Beasley, 2 Feidr Fair sydd wedi derbyn llawdriniaetrh yn ddiweddar.

## RHYDYCEISIAID

Gwasanaethwyd yn hyfryd gan Mr Sion Page, Trelech yn oedfa Cymun Sul 19ed o Hydref, oedfa o Ddiolchgarwch a diolch iddo.

**CJ Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin, Sanclêr, SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
***Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h. Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.***
Ffôn: 01994 419230

*G WILLIAMS a'i FEIBION*
Monumental Masons
*SEIRI MEINI COFFA*
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

## CWMFELIN MYNACH

**Diolch**
Dymuna Terry, Cennydd, Catrin a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad wedi marwolaeth Merle. Casglwyd swm yn agos i £1800, sy'n cael ei rannu rhwng y Tîm Lliniarol a Thîm Ymateb Aciwt Ysbyty Glangwili, trwy law Cynghrair Cyfeillion yr Ysbyty. Diolch yn fawr iawn.

**Ramoth**
Cynhaliwyd oedfa gymun ar Sul, Tachwedd 9fed o dan ofal Arwel Evans. Diolch iddo am ei wasanaeth.

Cydymdeimlo
Estynnwn gydymdeimlad yr eglwys â theulu y diweddar Hubert Phillips, Waunfawr sef ei briod Margaret, ei blant Garry, Neville a Susan a'i wyrion Leo a Maria. Bu Hubert yn ddiacon, dosbarthwr ac arweinydd y gân am flynyddoedd maith a bu'n ffyddlon iawn i'r oedfaon ac i holl weithgareddau'r eglwys. Mae Ramoth wedi colli aelod ffyddlon arall ac mae bwlch enfawr ar ei ôl. Bu'r angladd yn Ramoth ar Dachwedd 5ed dan ofal y Parch. Huw George. Cydymdeimlwn hefyd â Hugh Lewis ei gefnder.
…. hefyd cydymdeimlwn â Susan Davies a Wyn Evans ar farwolaeth cefnder, sef Billy Evans o Crymych.

Da dweud fod Dafydd Evans, sydd yn awr yn Ysbyty Castell Nedd Port Talbot yn gwella'n raddol. Gwnaed casgliad diolchgarwch yn yr oedfa gymun a diolch i bawb a gyfranodd i'r Uned Gofal Dwys yn Ysbyty Athrofaol, Caerdydd. Ar ôl cael llifogydd yn y tŷ yn ystod mis Tachwedd, mae Nansi Evans, Penybont yn awr yng Nghartref Gofal Gwernllwyn , Cross Hands.

## CWM MILES

Diolch i'r Parchedig Euros Jones Evans am ei wasanaeth yng nghwrdd diolchgarwch yr eglwys. Ei destun oedd-
"Yr wyt yn coroni'r flwyddyn â'th ddaioni, ac y mae dy lwybrau yn diferu gan fraster" allan o Salm 65 adnod 11. Cafwyd pregeth rymus gan bwysleisio na ddylem fod yn ddieithriad i ras Duw, i allu Duw ac i Dduw y digonedd.

## MEIDRIM



Dyma Carwyn Lewis yn cyflwyno siec am £5000 i Dr Pearson a'i dîm i Ysbyty Treforus wedi ei ddiwrnod o chwarae golff i godi arian tuag at MS.
Cymerodd hyn le yng Nghlwb Golff Derllys Bancyfelin ar mis Mehefin diwethaf.

**Henoed Meidrim**
Ein cyfarfod diwethaf oedd Cwrdd Diolchgarwch dan arweiniad Mr Sion Page o Drelech.
Clywsom ganddo am ryfeddodau'r pedwar tymor a fel mae Duw yn ein helpu drwy pob tymor yn ei dro. Diolchwyd iddo gan Meirion Morris. Casglwyd £150 tuag at Eisteddfod y Garreg Las.
Bydd y cyfarfod nesaf ar Rhagfyr 2il, cawn ddarlleniadau a charolau cyn cael mulled wine a mince pies.
Yn rhoi raffl - Hiefena, Brian, Emrys a Glenda.

## GELLYWEN

**Ainon**
Pleser o'r mwyaf yw cyhoeddi unwaith eto fod priodas un oedd a chysylltiad teuluol agos iawn wedi cael ei chynnal gyda ni yn Ainon yn ddiweddar. Ar Hydref 16eg, fe briodwyd Peter Havard a Christine Lewis a oedd yn ferch i'r diweddar Laurie Lewis, Corngafr ac yn ffermio Cilfforch, Gellywen a Neuadd Meidrim.
Dymuniade gorau i'r ddau am flynyddoedd o fywyd priodasol hapus yn eu cartref ym Mhwlltrap, SanClêr.

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL
Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP



Phillips


## Coginio Nadolig

**TRYFFLS RWM**

Cynhwysion
2 owns o siocled plaen
1 owns o fenyn
2 owns o siwgr eisin
2 owns o sbwng (cymysgedd hen cacen)
1 llwy fwrdd o rwm
Dull
Hufenwch y menyn a'r siwgr eisin nes ei fod yn llyfn. Cymysgwch y rwm i mewn, toddwch y siocled am 2 funud ac ychwanegwch i'r gymysgedd rwm. Gadewch iddo oeri. Ffurfiwch beli bach a'u rholio naill a’i mewn cnau coco, fermicelli neu bowdr coco.
Rhowch mewn casys papur a'u hoeri nes eu bod yn galed.

**PATE EOG**

Cynhwysion
75g (3 owns) o gaws meddal braster llawn
½ winwnsyn bach wedi'i gratio
1 - 2 llwy fwrdd o sudd lemwn
1 llwy de o saws ‘horseradish’
Halen a phupur
213g (7½ owns) tun o eog, wedi'i ddraenio’n dda
1 llwy de o gennin ffres wedi'u torri i addurno
Dull
Rhowch y caws meddal, y winwnsyn wedi'i gratio, y sudd lemwn a'r saws ‘horseradish’ mewn powlen. Chwisgwch nes ei fod wedi'i gymysgu gyda'i gilydd. Ychwanegwch halen a phupur. Ychwanegwch yr eog a'i guro nes ei fod yn llyfn ac yn hufennog. Rhowch mewn bowlen weini ac addurnwch gyda'r gennin wedi'u torri. Gweinwch gyda chraceri a sleisys ciwcymbr.



## BLAENWAUN

Dymuna Ann a’r teulu “Swyn Y Wawr”, ddiolch i’r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, galwadau ffôn a negeseuon o gydymdeimlad, yn dilyn marwolaeth ei mam Lon Gibbin.
Dymuna Llŷr a Ceri, “Gorlan”, ddiolch bawb am y cardiau ac anrhegion ar enedigaeth ei mab annwyl, Celt Eurig. Pob dymuniad da iddynt fel teulu.

**Moriah**

Diolch i Elonwy Philips am ei gwasanaeth yng nghwrdd diolchgarwch yr eglwys .
Ei thestun yn ddigon addas oedd diolchgarwch ac er gwaethaf sefyllfa’r byd mae digon gennym i ddangos diolchgarwch. Ein gweinidog oedd yn gwasanaethu yng nghymundeb mis Tachwedd.

Yntau yn dewis y testun tywyllwch a goleuni ac yn pwysleiso y ffyrdd ymarferol ddylem ni wneud i ledu goleuni.
Trefn yr oedfaon
Rhagfyr 7fed. 3-30 Cymun Parchedig Gareth Ioan.
Rhagfyr 21ain. Oedfa Nadolig. Parchedig Gareth Ioan.
Ionawr 4ydd. 10-30 Parchedig Gareth Ioan.
Croeso cynnes i bawb.



**Dyma lun Huw James, fferm Tyddyn, cadeirydd Undeb Amaethwyr Cymru Sir Gâr, gyda gweinidog newydd Swyddfa Cymru Anna Morris AS. Llongyfarchiadau i’r ddau.**

BELLISSIMO
Blodau gan
Kathy Bizzotto
(Llandysilio)
ar gyfer pob achlysur.
Defnyddir blodau
tymhorol lleol.
Ffôn: 07944 248973
e-bost:
kathbizzoto@gmail.com



SAER COED
IFAN LEWIS
CARPENTRY
07456 626 735

STEVE DANIELL
Monraker
PLYMIWR
Gosod ystafelloedd ymolchi
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

## PLYGAIN

Cynhelir Oedfa Plygain draddodiadol yn Eglwys Gwynio Sant, Llanwinio, ar Ddydd Sul 11eg o Ionawr, am 4.00 y prynhawn, gyda dau gylch o garolau yn dilyn yr Hwyrol Weddi.

Mae gwasanaeth y Plygain, sydd wedi goroesi yng Nghanolbarth Cymru ers y Canol Oesoedd, yn gysylltiedig â'r cyfnod rhwng yr Adfent a'r Ystwyll, ac mae'r carolau'n ymdrin â'r cysylltiadau rhwng y Cread a hanesion yr Hen Destament, a dyfodiad Iesu i'n byd. Dewch i ganu, a gwrando, a myfyrio gyda ni.

Hoffem estyn gwahoddiad i unigolion neu grwpiau o gantorion i ganu gyda ni yn Llanwinio. Croeso i chi gysylltu â Phil Higginson (07833 616692) am fanylion pellach.

Ceir casgliad ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las yn ystod y gwasanaeth

## LLANWINIO

Pwyllgor Adloniant Llanwinio
**OEDFA GAROLAU**
yn Eglwys Llanwinio
**Nos Sul, Rhagfyr 21ain**
**am 7 o'r gloch**
Arweinydd: Phillip Higginson
Organyddes: Jiwli Higginson
*Casgliad tuag at elusennau lleol*
Lluniaeth ysgafn i ddilyn yn y Neuadd
*Croeso i bawb*

## RHYDWILYM

Diolch i Tudur Dylan Jones am wasanaeth Cymun bendithiol iawn ar yr 2 il o Dachwedd.
Edrychwn ymlaen am wasanaeth dan ofal y Parchedig Peter M Thomas fore Sul, 23ain o Dachwedd

Rhagfyr 7fed. 2.00 Cymun.
Parchedig Catrin Thomas
Ionawr 11fed 2026. 10.30. Cymun.
Parchedig Ken Thomas
25ain 2.00 Donna George

Gwnaeth Eilir a Russell groesawu aelodau o Bethel y Tymbl ar ymweliad brynhawn Sul braf ym mis Hydref. Gwnaeth pawb fwynhau yn fawr yn edrych o amgylch a chlywed tipyn o hanes y lle gan Russell.
Cyn iddynt droi am adre, mawr fu'r diolch am y croeso.

Roedd yn ddrwg gennym glywed bod Meinir Davies wedi syrthio a torri ei dwy fraich yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan iddi.
Rydym hefyd yn dymuno yn dda i bawb sydd yn anhwylus ar hyn o bryd.
Ar brynhawn Iau, 13eg Tachwedd claddwyd y diweddar Val John yn y fynwent.
Mae ein cydymdeilad gyda Muriel, Huw ar teulu i gyd.
Llawer o ddiolch i'r rhai sydd wedi bod yn gofalu am y mynwentydd a'r eiddo i gyd a gadael y cwbwl yn daclus dros y gaeaf.
Mae yn dymor y Nadolig unwaith yn rhagor a dymunwn yn dda i bawb.
Nadolig Dedwydd i chi gyd.

**Rosemarie Davies**
Cyfrifydd Technegol
GWASANAETH
CADW CYFRIFON
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
*Yn drwyddedig gan*
*Association of Accounting Technicians*

Delwedd
07814 543634
***Salon Harddwch a Chyflenwol***
Crymych
Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*


Ffôn: 01994 230474

## LOGIN

**Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen**

Gan bod cymaint o fobol yn anhwylus gorfod i ni ohirio,'r noson " Dod a Siario swper. "

Fel y gwelwch ar y poster mae ein gwasanaeth Canu Carolau yn cael ei gynnal ar nos Sul, 14eg o Rhagfyr. Croeso cynnes i bawb. Derbynnir nwyddau neu arian tuag at Fanc Bwyd Hendy Gwyn ar daf. Gweler y manylion ar y poster. Croeso cynnes i bawb yn yr ardal.




Cynhelir ein cinio blynyddol ar nos Wener, 30ain Ionawr yng Nghaffi Beca. Cewch fanylion y fwydlen yn y flwyddyn newydd.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 3ydd Chwefror am 7 o'r gloch yn y Ganolfan.

Nghaffi Beca. Rydym yn ymbil am gefogaeth dda.

**Calfaria**

**Oedfaon.**

Diolch o galon i'r Prifardd Tudur Dylan Jones am ei wasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.
Rhagfyr 7fed - Catrin Thomas - Cymun am 10.30
21ain - Cwrdd Nadolig aelodau am 10.30
Ionawr 11eg – Ken Thomas – Cymun am 10.30
25ain – Donna George – Cwrdd am 2

**Y Gymanfa Ganu**

Cynhaliwyd y Gymanfa Ganu blynyddol yng Nghapel Pisga, Llandysilio ar fore Sul, Hydref 19eg dan arweiniad John S Davies, Efailwen. Y cyfeilyddion oedd Ceirios Jenner a Jiwli Higginson a cafwyd canu bendigedig gan y cantorion. Recordiwyd y Gymanfa ar gyfer rhaglen Caniadaeth y Cysegr, Radio Cymru a darlledwyd honno ar Tachwedd 16eg.

Cyrddau Hanner Blynyddol Gymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion

Cynhaliwyd cyrddau hanner blynyddoil y Gymanfa yng Nghapel Providence, Cwmdu ar brynhawn a nos Fercher, Hydref 22ain. Gweler adroddiad amdano o fewn y rhifyn hwn.

**Gwellhad**

Dymuniadau gorau i Les Owen sy'n anhwyus ar hyn oi bryd.

**Penblwydd**

Dymunwn benblwydd hapus i Owen Jenner fydd yn 30 oed ar Rhagfyr 9fed.

## SANCLÊR

Dioddefodd tref San Clêr a'r ardal yn wael yn y llifogydd ar ddechrau mis Tachwedd. Gwelsom Sheila o County Stores a Deri y cigydd yn siarad yn huawdl iawn ar newyddion S4C am eu profiadau diflas. Rydym yn danfon ein cofion cynhesaf at y busnesau a'r tai a effeithiwyd gan wybod bod llawer iawn o waith o'ch blaenau i ddod nôl i drefn wedi llanast fel hyn.

Taenwyd cwmwl o dristwch dros yr ardal wrth glywed am farwolaeth Leon Arundel, 14 oed, o Langynog mewn damwain. Yn gyn-ddisgybl o Yagol Griffith Jones roedd yn aelod o'r Clwb Ffermwyr Ifanc a Chlwb Pel-droed San Cler. Mae nifer fawr o gysylltiadau teuluol a ffrindiau yn byw yn San Cler a danfonwn ein cydymdeimlad diffuant at y teulu agos ynghyd â phawb oedd yn ei adnabod.









Dymunwn benblwydd hapus hwyr i Jane Morgan, Llawn Cariad a oedd yn dathlu penblwydd arbennig rai wythnosau nôl.

Llongyfarchiadau i Ceri a Tallulah Davies ar enedigaeth mab, Leo James, ar Hydref 15fed. (gweler y llun isod). Brawd bach i Celyn a Nora ac ŵyr i Tim a Wendy, Glynhir, Heol yr Orsaf.



Penblwydd hapus i Craig Farrier, Lôn Hafren, a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 18 oed ar Dachwedd 13eg.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Ted Gamage, Lower Ostrey, yn 93 oed. Roedd Ted yn gymeriad serchus a oedd yn mwynhau cymdeithasu gyda phawb. Byddwn yn gweld ei eisiau yn gyrru yn ei gar bach ar hyd strydoedd SanClêr. Cydymdeimlwn â Janet, ei ferch a David y mab-yng-nghyfraith, Bronyglyn a'r teulu oll ar eu colled.

**Diolch**
Carem ddiolch i bawb, teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau gorau a gefais pan yn dathlu fy mhen blwydd yn 80 oed ar Dachwedd 13eg. Methu credu bod cymaint wedi cofio amdanaf wrth gyrraedd y garreg filltir arbennig hon. Diolch unwaith eto, yn gywir Ann Crowdie.

Ddiwedd y flwyddyn fe fydd un arall o fusnesau San Clêr yn cau, sef siop trin-gwallt Europa Hair Fashions. Fe fuodd y perchennog, Wendy Gosnold-Davies, yn rhoi hanes y busnes. Cychwynwyd y busnes yn 1982 gan Wendy a'i mam Selina Gosnold. Dros y blynyddoedd fe fuon nhw'n hyfforddi prentisiaid gan eu rhoi ar y ffordd yn eu gyrfaoedd. Yn 1990 ymunodd Dawn â'r tîm ac mae ei brwdfrydedd a'i ethos gwaith hi wedi chwarae rhan fawr yn llwyddiant Europa, mae wedi bod yn drysor i'r salon a'r cleientiaid.
Mae newid enfawr wedi bod mewn trin gwallt ers agor y salon. Mae prosesau yn esblygu o hyd ac mae y gwasanaeth heddiw dipyn yn fwy technolegol sydd yn golygu cadw lan gyda'r trendiau newydd o hyd.
Dywed Wendy "Y rhan orau o'r gwaith yw'r bobl. Mae wedi bod yn bleser dod i adnabod ein cleientiaid a dydyn ni ddim yn eu gweld fel cleientiaid ond ffrindiau. Mae'r salon bob amser wedi bod fel un teulu mawr yng nghanol SanClêr gyda phobl yn galw mewn am baned hyd yn oed os nad oes ganddyn nhw apwyntiad. Mae wedi bod yn le arbennig iawn i ni ac fe fyddwn yn gweld ei eisiau'n fawr, ynghyd â gweld eisiau pawb sydd wedi bod yn rhan o'n siwrne arbennig ni."
Dymunwn yn dda i Wendy a Dawn gan ddiolch iddyn nhw am eu gwasanaeth i SanClêr a'r cylch dros y blynyddoedd. Diolch hefyd am eu cefnogaeth i'r Cardi Bach wrth hysbysebu yn y papur ers blynyddoedd




**Siop trin-gwallt Europa Hair Fashions**

DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street,
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.






Mae Olive ac Yvonne o Pethau Olyv wedi bod yn y newyddion yn ddiweddar. Roedd erthygl amdanynt ar wefan Cymru Fyw a bu Dylan Ebenezer o raglen "Dros Frecwast" ar Radio Cymru yn holi Olive. Mae tipyn o son y dyddiau yma am "Silver Influencers" a "Silver Surfers" sef pobl hŷn sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a mae Pethau Olyv gyda'u fideos dyddiol wedi dod yn dipyn o ffefrynnau gyda dros 11,000 o ddilynwyr ar Facebook. Bu Olive yn son am y tîm o bobl sy'n eu helpu gan gynnwys Jackie Compiwtars sy'n eu ffilmio bob bore Gwener a gosod y fideos ar y we. Maen nhw'n derbyn negeseuon o dros y byd i gyd gyda phobl o bell yn galw i'w gweld, cais gan rhywun o dramor i'w helpu i ddysgu Cymraeg a chael eu hadnabod fel "selebs" wrth fynd allan. Diolch iddyn nhw am roi SanClêr ar y map heb anghofio'r cyfan maen nhw'n ei wneud dros y dref, mae'r siop yn hwb i'r gymuned ac yn cynnig lle i gwrdd dros baned, maen nhw wedi codi llawer o arian at elusennau lleol a chefnogi eraill drwy gasglu nwyddau at achosion gwahanol megis apêl Tŷ Croeso, Lloches Menywod, Coda Ni, Banc Bwyd ac ati.







# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,
Dyma 2025 yn dod at ei therfyn a chofiwn yn annwyl am y rheini a gollwyd, boed yn aelodau'r Clwb 200, neu'n ffrindiau i'r Cardi Bach.
Diolch am eich cefnogaeth i'r clwb drwy gydol y flwyddyn ac hyderaf y gwnewch ymuno eto'r flwyddyn nesaf, i gefnogi'n papur bro.

Dyma enwau'r sawl sydd wedi ymaelodi'n ddiweddar:-
Iorwerth a Rhiannon Davies, Pencerrig, Efailwen
Wendy Rees, 17 Parc yr Eos, Hermon
Richard a Non Murray, Maesyffynnon, Efailwen
Margaret Williams, Cilowen, Login
Dion Williams, Cilowen, Login
Geraint James, Coedllys, Cwm Miles
Tudur Lewis, Bro Beca, Efailwen

Llongyfarchiadau i enillwyr lwcus mis Hydref:-
174 - £30 - Rhiannon Thomas, Llys Coed, Llangynin.
601 - £20 - Hywel a Fanw Thomas, Brynderwen, Hen Dŷ Gwyn.

Gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Ddedwydd ac heddychlon i chi gyd.

Cadwch yn ddiogel,
Rhian.










## PWLLTRAP

Dymunwn yn dda i Hywel ac Ann Morris sydd wedi symud i Dolanog. Croeso i Bwll Trap.
Cydymdeimlwn â Ieuan a Liz Daniel, Bryn Meysydd, a'r teulu, ar farwolaeth mam Ieuan, sef Joan Daniel o'r Hendy, Pontarddulais.
Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Keri Thomas, Four Winds, Heol Bethlehem ar Hydref 19eg. Doedd ddim wedi mwynhau'r iechyd gorau dros y blynyddoedd diwethaf ond wedi brwydro'n galed yn erbyn yr afiechyd. Cydymdeimlwn â'r teulu oll ar eu colled.

**Bethlehem Newydd**

Cydymdeimlwn â Angharad a Rhys Huws a Guto ar farwolaeth tad Angharad sef Gwynfor Price o Feidrim (gynt o Lanelli.)
Damhegion yn son am fyd natur oedd testun yr oedfa ar Hydref 26ain a oedd dan ofal yr aelodau. Roedd yn oedfa hyfryd â chynulleidfa dda yno. Dai Rees oedd yn cyfeilio.
Mynyddoedd y Beibl oedd testun oedfa Tachwedd 2il ac eto cafwyd oedfa fendithiol a chyfle i ddysgu llawer. Gweinyddwyd y Cymun gan y Parch. Rhodri Glyn Thomas. Dai Rees oedd yn cyfeilio a mwynhawyd paned a chacen cyn mynd adre.
Maria Evans oedd yn gwasanaethu ar fore Sul, Tachwedd 9fed ac eto cafwyd oedfa fendithiol yn ei chwmni. Dai Rees oedd yn cyfeilio.
Meirion Williams, Lower Court yw Llywydd Cymdeithas Gwartheg Holstein De Cymru eleni ac yn rhinwedd ei swydd trefnodd Wasanaeth Diolchgarwch ym Methlehem Newydd ar nos Wener, Hydref 31ain. Roedd tyrfa luosog yno a llawr y capel yn llawn. Croesawyd pawb gan Meirion a chymerwyd rhan gan aelodau o'r Gymdeithas gan gynnwys unawd swynol gan Gwenllian Jones. Cafwyd anerchiad diddorol a grymus gan yr Hybarch Eileen Davies. Hilary Evans oedd yn cyfeilio. Yn dilyn yr oedfa mwynhawyd lluniaeth blasus a baratowyd gan Sue Hughes o'r Hen Ysgol. Yn y llun gwelir y rhai a fu'n cymryd rhan yn yr oedfa. Roedd y capel wedi ei addurno yn hynod o hardd gyda blodau a llysiau'r Cynhaeaf. Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo.



Y rhai a fu'n cymryd rhan yn yr oedfa.



Anerchiad diddorol a grymus gan yr Hybarch Eileen Davies.

## HENDYGWYNARDAF

**Diolch**

Dymuna Mel ac Elizabeth ddiolch am yr holl gardiau, galwadau ffôn a dymuniadau caredig a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CARDIGAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon
clinigol
ar gyfer poenau ac anafiadau cyffredinol sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith

**Cylch Meithrin Hywel Dda**
Ymwelodd y plant â gardd farchnad Greenacre yn Llanteg fis diwethaf a dewis pwmpenni hyfryd i fynd adref gyda nhw. Cawsant amser bendigedig! Diolch i Bysiau Cwm Taf am ein cludo.
Buodd y plant yn dathlu Diwrnod Shwmae ar 15eg o Hydref. Mae nhw'n mwynhau siarad, canu, chwarae a gwrando ar storiau yn y Gymraeg.
Enillwyr Clwb 200 mis Hydref:
1af: Rhif 111 Colin Harries
2il: Rhif 21 Hedydd Thomas
3ydd: Rhif 88 SW&SM Allen



**Y plant yn mwynhau yn farchnad Greenacre, Llanteg.**







**Diwrnod Shwmae**

**Clwb Cant Hywel Dda**
Enillwyr mis Tachwedd
1af. - Russell Davies - £60
2ail - David Gillard - £50
3ydd. - Judith Davies - £40
4ydd. - Wynne Phillips Trucks - £30.

## LLANBOIDY

**Cydymdeimlo**
Yn 90 oed collwyd un o amaethwyr hynaf yr ardal sef Hubert Phillips, Waunfawr, lle bu'n ffermio ar hyd ei fywyd, yn aelod o Gôr Hendy-gwyn, a'r gymuned amaethyddol. Cydymdeimlwn a'i briod Margaret, Gary, Neville, Susan a'r teulu.

Cydymdeimlwn ag Angela Murray, 2 Picadilly, Richard, Phillip a'r teulu cyfan wedi iddynt golli gwr a thad, Gareth Murray, oedd yn gymeriad hoffus yn y pentref.

Yn 95 oed bu farw preswylydd hynaf y pentref, Norah Heseltine, Spencer House, Bu'n weithgar yn yr ardal gydol ei hoes, yng Nghapel y Trinity, y W.I., Chwaeroliaeth a Norah oedd gohebydd Llanboidy i'r Cardi Bach o'r cychwyn cyntaf. Cydymdeimlwn â Jayne, Owain a'r teulu cyfan.

LLAWN CARIAD
**Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon**
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk




Bwyd Byd
- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

**Chwaeroliaeth**

Ar Hydref 15eg cwrddod yr aelodau yn y festri. Croesawodd y Llywydd Wenfys Rees bawb i'r cyfarfod a bu'n cydymdeimlo gyda Mair Morgan wedi iddi golli ffrind arbennig sef Violet Adams, Norah Heseltine a Anne Lewis ar golli cefnder sef Hubert Phillips. Cafwyd prynhawn difyr gyda Elonwy Phillips yn darllen barddoniaeth a storiau byr yn llawn hiwmor. Pawb wedi mwynhau y prynhawn yn gorffen gyda te a bisgedi dan ofal Rose Saer ac Anne Lewis.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Jayne Evans, Dyffryn Brodyn ar ennill gwobr yn seremoni wobrwyo Athletau Cymru yng Ngwesty'r Parkgate, Caerdydd yn ddiweddar. Enllodd wobr y Gweinyddwr Newydd Gorau.




**Jayne Evans yn derbyn gwobr**

# TRELECH

## Elusen William Davies Plwyf Trelech a'r Betws

**YSGOLORIAETH**

Mae'r Ymddiriedolwyr yn fuan yn bwriadu dyfarnu ysgoloriaethau am y flwyddyn 2025/2026 ar gyfer personnau sydd wedi cychwyn ar addysg bellach neu brentisiaeth crefft.

Gellir gwneud ceisiadau ar ffurflen osodedig erbyn yr 28ain o Chwefror 2026. Gellir cael y ffurflen gais wrth y clerc.

Disgwylir i pob ymgeisydd llwyddiannus gydnabod a diolch am yr ysgoloriaeth.

Clerc: Mrs Liza Jones, Treto Isaf, Trelech, Caerfyrddin, SA33 6SH.

07419137565 clerc@trelecharbetws.cymru

**YSGOLORIAETH**

Mae Cyngor Cymuned Trelech a'r Betws yn cynnig ysgoloriaeth i'r myfyrwyr hynny sydd yn byw o fewn y gymuned, ac yn dilyn cwrs llawn amser, di-dâl mewn addysg bellach.


Dylair cais gynnwys manylion y cwrs, yn ogystal a llythyr gan diwtor y myfyriwr i gadarnhau'r manylion penodol. Bydd yr ysgoloriaeth yn cael ei roi ym mis Mawrth a bydd rhaid i'r ceisiadau gyrraedd y clerc erbyn 28ain o Chwefror 2026.

Os hoffech unrhyw wybodaeth pellach, cysylltwch a'r clerc.









**Capel y Graig, Trelech**

Yn ystod y misoedd diwethaf, mynychwyd rihyrsals y Gymanfa Ganu ar y 7fed o Fedi yn Bryn Iwan, 21ain yn Hermon, y brif rihyrsal yng Nghapel Blaenycoed ar y 5ed o Hydref a'r Gymanfa Ganu yng Nghapel y Graig ar y 12fed o Hydref. Cafwyd prif rihyrsal a Gymanfa Ganu arbennig iawn o dan arweinyddiaeth Mrs Pat Jones, Chwilog. Yn cyfeilio ar ran Capel y Graig oedd Eirlys Phillips a Buddug James Rees. Diolch i blant yr Ysgol Sul a'r ieuenctid am adrodd y penillion: Marged, Lois, Owain, Rosie, Ruby, Alis, Iwan, Elain, Anna, Cadi, Gwen a Llywelyn. Diolch hefyd i bawb a fu'n brysur yn paratoi ar gyfer cinio a the yn y ganolfan. Cymerwyd at y rhannau arweiniol yn oedfa'r prynhawn gan Gwawr Lewis a Buddug James Rees. Llywydd oedfa'r prynhawn oedd Mrs Lydia Davies, Hermon. Yn ystod yr oedfa hwyr, cyflwynwyd Medal G i Mrs Ann Evans, Blaenycoed a Mr Elfed Davies, Hermon gan y Parchg Aled Davies. Llywyddwyd oedfa'r bore a'r prynhawn gan Jean Lewis ac oedfa'r hwyr gan y Parchg Guto Rhys ap Gwynfor. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Ar nos Fawrth, Hydref 21ain cynhaliwyd yr Oedfa Ddiolchgarwch gyda'r Parchedig Geraint Morse a daeth tyrfa dda ynghyd. Diolch yn fawr iddo am ei neges amserol ac ysbrydoledig. Yn dilyn yr oedfa, aethpwyd i Dafarn Beca i gael lluniaeth. Diolch yn fawr i Eleri Rees am baratoi ac i Alyson Harries am drefnu. Ar Hydref 26ain, cafwyd oedfa gymun gyda Mr Lyndon Lloyd. Ar y 9fed, cynhaliwyd Oedfa Ddiolchgarwch y plant a'r bobol ifanc. Gan ei bod hefyd yn Ddydd y Cofio, rhoddwyd sylw i aelodau o'r eglwys a gollodd eu bywydau yn ystod rhyfeloedd. Diolch i bawb a gymerodd ran ac i'r athrawon Ysgol Sul, Eirlys Phillips ac Eleri Rees am eu gwaith. Bydd casgliad y ddwy oedfa £277.00 yn mynd tuag at y Banc Bwyd lleol.

Daeth nifer i'r capel i ddigwyddiad anffurfiol i gynnau gannwyll i gofio am anwyliaid ac i rannu gobaith ar nos Wener, 31ain o Hydref.

Bu nifer o aelodau yn Noson o Fawl, Capel Bethania, Talog, er mwyn casglu arian tuag at Cymorth Cristnogol. Casglwyd £222.

Yn cyfeilio ar ran Capel y Graig oedd Buddug James Rees ac ar y dryms Iwan Bowen.Diolch i bawb a fynychodd.

Yn ystod y misoedd diwethaf rydym wedi colli dau aelod ac rydym fel eglwys yn cydymdeimlo'n ddwys gyda'r ddau deulu yn eu colled. Hunodd Mrs Ina Isabel Barnett, Clun-View, Trelech, ar Orffennaf 13eg yn 85 mlwydd oed. Priod annwyl a ffyddlon y diweddar Frank, mam ofalus Olivia a'i gŵr Wyn, mama gariadus i Andrew, Simon a Rachel, a hen famgu dyner i Lowri Elen a Charlie Franklin. Bu Ina yn aelod ffyddlon o'r capel ar hyd ei hoes. Bu'n geidwad y capel am flynyddoedd lawer yn sicrhau bod y capel a'r ardal tu allan o hyd yn edrych yn lân ac yn daclus. Fel dosbarthwyr y Cardi Bach am nifer o flynyddoedd, edrychwyd ymlaen i ymweliadau misol Ina a Frank gan bobol ar eu haelwydydd ac yng nghartrefi preswyl. Cynhaliwyd yr angladd gyhoeddus yng Nghapel y Graig ar y 1af o Awst yng ngofal Jean Lewis. Ar ran yr eglwys, cydymdeimlwyd gyda Olivia a Wyn â'r teulu mewn oedfa Gymun gan Mr Peter Harries, ar yr 28ain o Fedi.

Ar 8fed o Hydref, hunodd William Ryan Evans, priod ffyddlon Veronica, tad cariadus Gwenllian a'i phartner Johnathan, brawd Elaine, Melita a Neil, brawd yng nghyfraith, ewythr a mab yng nghyfraith hoffus. Cynhaliwyd y gwasanaeth cyhoeddus yn Amlosgfa Parc Gwyn, Arberth, ar ddydd Sadwrn, 8fed o Dachwedd pryd ddaeth tyrfa luosog i dalu'r gymwynas olaf. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Beti-Wyn James a Jean Lewis. Darllenwyd penillion hyfryd a theimladwy o waith Gwenllian yn yr oedfa gan y Parchg Beti-Wyn. Roedd Ryan yn adeiladwr crefftus a phan oedd angen Mans newydd ar yr eglwys, Ryan gafodd y gwaith i adeiladu Llys y Graig. Cydymdeimlwyd gyda Veronica, Gwenllian, Melita a'r teulu oll gan Mr Hefin Wyn mewn oedfa Gymun ar y 16eg o Dachwedd.

Penderfynwyd yn yr oedfa gymun ddiwethaf bod casgliad Canu Carolau o amgylch yr ardal yn mynd eleni tuag at Uned Gofal Dwys, Ysbyty Glangwili.

THE FLORAL GOAT
Karen MacKechnie
Crug y Deri
Llandysilio
SA66 7JJ
07774 715059
karen@floralgoat.co.uk

Yn tyfu wrth ochr yr Afon Conin
Ewyn rhydd flodeugerdd ffarwel

MASNACHWYR ADEILADU
"Gwasanaethu ein cymuned ers 30 mlynedd"
LLANBOIDY 01994 448435
ARBERTH 01834 861118
dpbuildingsupplies.co.uk

H THOMAS a'i FAB
Peiriannydd Amaethyddol

Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

# CLUNDERWEN

**Cydymdeimlo**

Estynwn ein cydymdeimlad dwys i Shaun Taverner a'r teulu, ar ol clywed am farwolaeth ei dad.

**Penblwyddi**

Penblwydd hapus i Deian James a fydd yn 18 oed ar 10fed Ionawr. Mab Meredith a Wendy, brawd i Ffion ac wyr i  Nansi James, Clunderwen a Dorman a Morfydd Davies, SanClêr.



Hefyd penblwydd hapus iawn i Becs Ashe yn 40 oed ar Hydref 25ed



Penblwydd hapus i Jasmin John yn 50 oed ar 25fed o Dachwedd



**Sul y Cofio**

Gwasanaeth fer iawn gafwyd wrth y gofeb yn Nghlun-derwen eleni am fod y tywydd ddim yn ffafriol iawn. Nol i Blaenconin wedi hynny ar gyfer oedfa.



**Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio**

Cynhelir ein cyfarfod blynyddol mis yma, gyda noson pwdin rownd 1 - Diolch i Mary, Del, Sue a Barbara am ddod ar pwdins blasus.

Dydd Sul, 8fed o Dachwedd gwnaeth Lon John rhoi torch ar ran y clwb yng ngwasanaeth y  Cofio.

Byddwn yn cwrdd nesaf ar 1af o Rhagfyr lle bydd ard-dangosiad ar grefft ffeltio.

Ar 6ed o Rhagfyr byddwn yn ymweld a Cegin Gareth.

Rydym yn cwrdd ar y Nos Lun cyntaf o bob mis yn Neuadd Clunderwen am 7.30yh, os hoffech ymuno bydd yna groeso mawr i chi.

**D. E. PHILLIPS**
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
*Trydanwyr*
*Siop Radio a Theledu*
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

arwyddion EagleSigns
Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
Uned 3/4, Parc Tir Owen, San Cler. SA33 4BY

Y GARREG LWYD
Heol Salem, Sancler
*Cartref Oddi Cartref*

Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

**Clwb Ffermwyr Ifenc Clunderwen**

Mae'r Clwb wedi bod yn brysur iawn yn y mis neu ddau diwethaf. Yn gyntaf llongyfarchiadau i'r clwb am ennill ar y cyd gyda clwb Keyston wobr E R Phillips CCB, sydd yn cael ei gyflwyno yn y Cyfarfod Blynyddol, i gydnabod gwaith caled y clybiau sy'n cefnogi cymunedau ac elusennau lleol.

Llongyfarchiadau mawr i bawb gymerodd ran yn yr Eisteddfod ar Hydref 18fed, yn enwedig y rhai oedd yn cystadlu am y tro cyntaf. Da iawn bawb.

Cymerodd rhai o'r aelodau ran yn noson cwis ar nos Wener, 24ain o Hydref, ac yna roedd Gwasanaeth Diolchgarwch yn Eglwys Ty Ddewi, gyda'r Sir.

Buont hefyd yn brysur yn glanhau y gofeb yng Nghlunderwen, yn barod ar gyfer y gwasanaeth.

Bu llawer o gystadlu yn Ffair Aeaf y Sir yn Hendy Gwyn ar 8fed o Dachwedd, gyda canlyniadau da iawn.

Dyma rai canlyniadau:
9fed - yn cyffredinol
3ydd - y Tim Beef
2il - dan 21 beef: Kizzie
2il- dan 18 Beef: Thea
1af- dan 28 butchers Lamb: Scott
2ail- dan 16 Butchers Lamb: Cai
3ydd - Gwneud Bwgan Brain
3ydd - Carcas dan 21: Menna

Os hoffech ymuno gyda Clwb Ffermwyr Ifenc Clunderwen maent yn cwrdd yn Neuadd Clunderwen bob nos Fawrth am 7.30yh

## LLANDYSILIO

**Hanes Blaenconin**

Ym mis Hydref, pleser o'r mwyaf oedd croesawu plant ac athrawon Ysgol Brynconin atom i gynnal eu 'Cwrdd Diolchgarwch' blynyddol.

Hyfryd oedd clywed y plant yn canu'n ysbrydol, hefyd adrodd ac amlwg yn mwynhau eu hunain wrth wneud, o'r ieuengaf i'r rhai hyn. Y siaradwr gwadd oedd bachgen o Kenya sydd erbyn hyn a cysylltiad a Maenclochog. Diolch i bawb am oedfa arbennig.Ar Tachwedd 9fed, tro Blaenconin oedd hi eleni i gynnal y 'Cwrdd Cofio'. Gan fod y tywydd yn wael, gwasanaeth byr a gafwyd wrth y Gofeb yng Nghlunderwen ac wedyn i Flaenconin lle'r oedd yr Offeiriad Sharon Edge yn ein disgwyl. Ar Tachwedd 9fed, tro Blaenconin oedd hi eleni i gynnal y 'Cwrdd Cofio'. Gan fod y tywydd yn wael, gwasanaeth byr a gafwyd wrth y Gofeb yng Nghlunderwen ac wedyn i Flaenconin lle'r oedd yr Offeiriad Sharon Edge yn ein disgwyl. Cawson oedfa fendithiol a diddorol ganddi lle cafodd enwau y rhai a fu byw a marw yng ngwasanaeth y Rhyfel eu henwi ac yna bu'r gynulleidfa yn canu dau emyn

**Digwyddiadau Capel Pisga**

Tachwedd 2025
30ain - Cyngerdd yr Adfent yng Nghapel Pisga yn dechrau am 5y.p.
Trystan Llŷr Griffiths a Chôr Llanddarog o dan arweiniad Meinir Richards fydd yn ein diddanu.
Tocynnau yn £12 yr un neu £10 am gonsesiwn oddi wrth https://span-arts.ticketsolve.com/ticketbooth/shows/873678462
Neu cysylltwch trwy e-bost at anna.williams2047@gmail.com neu 07850 713902

Rhagfyr 2025
7fed - Gwasanaeth Cymun ym Mhisga, Y Parchedig Eirian Wyn Lewis.
7fed - Llyfrau'r Capel yn cau.
Ionawr 2026
4ydd - 9 y.b. Cymundeb. Y Parchedig Eirian Wyn Lewis. Cwrdd Eglwys ar ddiwedd y gwasanaeth.
18fed - Gwasanaeth Sul y Beibl am 10:30y.b ym Mhisga.

**Pwyllgor Neuadd Llandysilio**

Maent yn cwrdd ar yr 2il Nos Lun o bob mis yn Neuadd Llandysilio am 7.30. Os hoffech ymuno a ni bydd yna groeso cynnes.
Os hoffech logi y Neuadd cysylltwch a Haulwen Pridmore ar 07788 816980.

**Eglwys Llandysilio**
Bore Coffi
Mins Pei
Raffle a Stondinau
**Neuadd Llandysilio**
*Dydd Sadwrn, 29ainTachwedd*
*10.30yb tan 12.00*
Elw tuag at Eglwys Llandysilio







# LLANGYNIN

**Gwellhad buan**

Dymunwn wellhad buan i Eifiona Lewis, 3 Llys Coed, wedi iddi gwympo a thorri ei garddwrn yn ôl ym mis Hydref...

....hefyd i Ryan Morris, 6 Llys Coed, sydd wedi derbyn llawdriniaeth ar ei lygad yn ddiweddar....

....a chroeso adref i Paul Lewis, Min-yr-awel, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Treforys yn ddiweddar.

Dymuniadu gorau am wellhad llwyr a buan i'r tri ohonynt.

**Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn**

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn am 2 o'r gloch brynhawn dydd Sul, Hydref 26ain, pan groesawyd Mr Sion Page atom i bregethu gan y gweinidog, y Parch. Huw George. Casglwyd swm o £85 tuag at Gynghrair Cyfeillion Ysbyty Glangwili a chafodd pob un gyfle i fwynhau paned a sgwrs wedi'r oedfa.

**Cymdeithas Gymraeg Llangynin**

Cynhaliwyd cyfarfod Cymdeithas Gymraeg Llangynin yn y Bryn ar nos Fercher, Tachwedd 12fed.

Croesawyd yr aelodau gan y cadeirydd, Dylan John, cyn iddo gyflwyno'r siaradwraig wadd, sef y Parchedig Sian Elin Thomas o Grymych.

Testun y noson oedd profiadau menywod yn y weinidogaeth. Dechreuodd gyda chlip fideo o'r gyfres gomedi The Vicar of Dibley, a sioc ac anniddigrwydd y plwyfolion o sylweddoli mai menyw oedd eu ficer newydd!

Adroddodd Sian Elin hanesion difyr am rai o arloeswyr benywaidd Cymru megis Cranogwen o Geredigion a Rahel o Sir Fôn, dwy wraig a ddaeth yn boblogaidd fel siaradwyr cyhoeddus galluog er iddynt wynebu gwrthwynebiad llym gan bregethwyr gwrywaidd eu cyfnod. A phwy fyddai'n meddwl bod cysylltiad rhwng Rahel o Fôn (Rachel Davies) a Donald Trump?

Cawsom ychydig o hanes bywyd a gyrfa Sian Elin ei hunan a'i phenderfyniad i ymuno â'r weinidogaeth yn 2017. Fe'i hordeiniwyd yng Nghapel y Graig, Castellnewydd Emlyn ac Ebeneser Dyfed yn 2021 ac ers 2023 mae hi hefyd yn weinidog ar gapel Penybont, Llandysul. Mae Sian hefyd yn Gaplan ar Gartref Gofal y Bedyddwyr, Glyn Nest.

Diolch i Sian Elin am noson ddifyr a llawn hwyl.

Os hoffech chi ymuno â'r Gymdeithas Gymraeg y tâl aelodaeth yw £15 am y flwyddyn. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r Cadeirydd, Dylan John – 07800 515987, Caroline Jones, Ysgrifennydd – 07854 004478 neu Kevin Roberts, Trysorydd – 07747 847804.



**Parchg Sian Elin a Dylan John**

**Pen blwyddi arbennig**

Llongyfarchiadau i'r canlynol sy'n dathlu pen blwyddi arbennig ym mis Tachwedd.

Penblwydd hapus iawn i Rocco Tirion, Llety Cariad, sydd yn 2 oed ar Dachwedd 20fed.




BAR BECA

Rhosfach, Efailwen

Guto Jenkins

Oriau agor Gaeaf: Hydref 1af-31 Mawrth
(Ar gau Llun, Mawrth a Mercher)
Agor Iau a Gwener: 4.30yp - 11yh
Sadwrn a Sul 3yp - 11yh

Oriau Haf: Ebrill 1af - 30ain Medi
(Ar gau nos Lun)
Agor Mawrth, Mercher, Iau 5.30yh - 11yh
Gwener, Sadwrn, Sul 3yp - 11yh

Ffôn: 07554 664316

GSJ

G.S.JENKINS

EFAILWEN, CLUNDERWEN

07554 664 316

Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar



Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
GWION JENKINS
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

Llongyfarchiadau a phen blwydd hapus i Sioned Jones, Maes-y-Coed, sydd yn dathlu ei phen blwydd yn 18 oed ar Dachwedd 29ain.



**Diolch**
Dymuna Llinos Thomas, Carreg Lwyd, ddiolch o waelod calon i bawb am eu dymuniadau da ar achlysur ei phen blwydd arbennig yn 70 oed. Diolch yn fawr i bob un.

## EFAILWEN







**Priodas Ruddem**
Llongyfarchiadau mawr i Huw a Mary Owens, Dan y Coed ar ddathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

**Gŵyl Bro'r Preseli 2025**
Nos Fawrth, 21 Hydref yn Theatr y Gromlech, cafwyd cyfle i fwynhau perfformiad campus Theatr Bara Caws o "Oes rhywun wedi gweld y Pernod King?", drama fer gan Mari Emlyn a gyfarwyddwyd gan Betsan Llwyd. Cafwyd noson ragorol a pherfformiadau campus yng nghwmni dau o actorion mwyaf talentog Cymru, yr amryddawn Llion Williams a'n seren lleol ni, Rhodri Evan. Cawsom dreulio orig gyda Tegid a Hudson yn Nhafarn yr Eagles brynhawn Sadwrn olaf a gwlyb Eisteddfod Llanrwst. Tueddu i edrych yn ôl neu edrych ymlaen a wnâi Tegid, er gwaethaf holl ymdrechion Hudson i'w ddarbwyllo i fwynhau'r presennol cyn iddi fynd yn rhy hwyr. Cafwyd cyfuniad gwych o'r doniol, y difrifol a'r trist yng nghwmni dau sy'n feistri ar eu crefft. Noson ddifyr dros ben.



**Hoelion Wyth Cangen Beca**

Cyfarfod Hydref 2025

Croesawyd yr aelodau gan ein Cadeirydd, Eifion Evans a chyflwynodd ein siaradwraig wadd, Hedydd Hughes o ardal Pencaer, Abergwaun.

Tafodiaith a threftadaeth oedd testun ei chyflwyniad a dechreuodd drwy adrodd ychydig o'i hanes, ei gyrfa fel gweithiwr banc am sawl blwyddyn cyn mynd i brifysgol i gael gradd a gwneud ymarfer dysgu. Wedi hynny bu'n dysgu yn y ganolfan Iaith yn Abergwaun am rai blynyddoedd.

Daeth â llawer o waith crefft i'w harddangos, - gwaith roedd hi ei hunan wedi ei greu, sef penglog y Fari Lwyd, tŷ'r dryw bach a model o hen fwthyn. Cawsom hanes a chlywed gwaith y bardd Idwal Lloyd, a chlywed geiriau i'r gân sy'n gysylltiedig â'r Fari lwyd. Bu'n sôn am hela'r dryw, a'n diddori â chân am Geiliog Beti gyda help y 'squeeze box'. Adroddodd ran fawr o'r gerdd Pwll Deri gan Dewi Emrys, sydd fel gwaith Idwal Lloyd, wedi ei hysgrifennu yn y dafodiaith leol. Hefyd cyflwynodd ychydig o hanes y cymeriad o Wdig, Shemi Wad (James Wade) y storïwr celwydd golau enwog bu fyw yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Un o hoff bethau Shemi oedd cnoi baco a sefyll rhwng y ddau dafarn yn Wdig yn adrodd storiâu i bobol oedd ar fin mynychu'r tafarn, mewn gobaith y cai ddiod am ddim am ei stori.

Cawsom noson hwylus a difyr iawn yng nghwmni Hedydd a diolchwyd iddi gan Eifion. Diolch hefyd i Robert am ddefnydd y lleoliad ac am ddarparu'r cawl arferol ar ein cyfer.



**Cyflwyno siec i Prostad Cymru**

Dathlodd Clive Edwards ei benblwydd yn 60 oed nol ym mis Mehefin a'i ddymuniad oedd derbyn rhoddion tuag at elusen Prostad Cymru, yn hytrach na derbyn anrhegion.

O ganlyniad i haelioni ei deulu a'i ffrindiau, yn ogystal a cynnal ocsiwn lwyddiannus tu hwnt ar noson ei barti penblwydd, codwyd y swm anhygoel o £6682.80

Wrth dderbyn y siec ar ran Prostad Cymru, dywedodd John Daniels bod Clive a Bysiau Cwm Taf wedi bod yn gefnogwyr brwd o'r elusen dros y 10 mlynedd diwethaf a diolchodd yn ddiffuant iddo am gefnogaeth arbennig ac anhygoel unwaith yn rhagor.

Da iawn ti CCM! ( Gol )




**Nia, Clive a John Daniels**

WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn: 01437 563300

IFAN DAVIES
Saer Coed
Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA
07875 540469

W. J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch
SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU
Blaenwern, Clunderwen
Ffôn: 01437 563319

# CFfI PENYBONT

Gweler isod canlyniadau Eisteddfod CFfI Penybont

Enillwyr Eisteddfod Sir Gâr 2025
2il yn y darian gwaith cartref
Enillydd y Goron - Daniel O'Callaghan
1af - Côr gyda Clwb Capel Iwan
1af - Parti Deusain
1af - Grŵp Cerdd Dant
1af - Unawd Offerynnol - Daniel O'Callaghan
1af - Unawd Alaw Werin 28 neu iau - Sioned Beynon
1af - Llefaru 28 neu iau - Daniel O'Callaghan
1af - Unawd 28 neu iau - Sioned Beynon
1af - Unawd Sioe Gerdd 28 neu iau - Daniel O'Callaghan
1af - Cystadleuaeth gwaith cartref 28 neu iau - Lowri Powell
2il - Ensemble Lleisiol
2il - Deuawd - Daniel O'Callaghan a Pheobe Morgan
2il - Unawd Alaw Werin 28 neu iau - Daniel O'Callaghan
2il - Unawd Sioe Gerdd 28 neu iau - Hannah Richards
2il - Cystadleuaeth gwaith cartref 10-13 oed - Heledd Williams
3ydd - Unawd 28 neu iau - Daniel O'Callaghan

Cynhaliwyd ein noson goffi yn cynnwys eitemau'r Eisteddfod ar nos Lun y 27ain o Hydref yn Neuadd Talog.
Hefyd cynhaliwyd ein cwrdd diolchgarwch ar nos Lun, y 3ydd o Dachwedd yng Nghapel Cana, Bancyfelin yng nghwmi'r Parchedig Beti Wyn James.



**Enillwyr a'r darian**



*Parhad o dudalen X...*
Newidwch y gair mewn print bras a'i roi yn y bwlch yn y frawddeg.
CYSTADLU
Ar ddechrau'r __________ roedd 200 o goreu.
NERFUS
Ydy'r __________ gymaint mewn gêm fawr?
LLE
Mae nifer o drigolion __________ yn chwilio'r afon.
GWYBOD
Apeliodd llefarydd am unrhyw __________ .
COFIO
Roedd yr olygfa ar y dyffryn yn __________ .
UCHEL
Ym mhen __________ 'r cwm, sythodd y llwybr.
SEFYLL
Llai na chanllath oddi wrthyf, __________ merch.
BLINO
Roedd e'n teimlo'n __________ .
CARREG
Roedd y llwybr yn un __________ .
BEIRNIADU
Ydy'r __________ yn deg?
CYFRINACH
Mae'n fater cwbl __________ .
IACH
Sut mae'r __________ erbyn hyn?
GWLAD
Daeth Rheilffordd Tal-y-Llyn yn ail trwy __________ Prydain.
MEDDWL
__________ i ddim am hynny.
ASGWRN
Gwelir dros gant o __________ yn yr arddangosfa.
DARGANFOD
__________ morfil yn Aberdawan.

PEIRIANNEG
MARC JAMES CYF
Marc James Engineering Ltd
GWAITH PEIRIANYDDOL AMAETHYDDOL
GWASANAETH • ATGYWERIO
Y Gweithdy
Llwyncelyn
Clunderwen
SA66 7HL
01437 563930
07831 149237
marcjamesengineering@btconnect.com

SPAR
Llanboidy
Swyddfa Bost
Nwyddau o bob math
Diodydd
Loteri
SWYDDFA POST
Ffôn: 01994 448221

Bwyty'r Roadhouse Restaurant
Cylchfan Heol Llanboidy, Hendygwyn
Agor bob dydd o 8y.b. - 10y.h.
*Brecwast, cinio a bwyd gyda'r nos*
*Arlwyo ar gyfer unrhyw achlysur arbennig*
Ffôn: 01994 241193

## Anrhydeddau PHD Parchg Euros Jones-Evans

Mae un o Fois Llysmyfyr Login gynt, sef y Parchedig Euros Jones-Evans, ac o Ystradowen yn Nyffryn Tawe, yn awr, wedi derbyn anrhydedd mawr gan Brifysgolion Achrededig yn Fyd-eang am ei waith oes i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a llenyddiaeth Gristnogol.
Mewn seremoni raddio o fri yn San Francisco ar 1 Tachwedd 2025, derbyniodd ddwy radd Ddoethur Anrhydeddus (Ph.D.) — un gan Brifysgol Dunster, y Swistir, a'r llall gan Brifysgol Orange County, California. Yn ogystal, dyfarnwyd iddo ddau statws Athro Prifysgol Anrhydeddus (Honorary Professorship) gan Brifysgol Kennedy a Phrifysgol Paris.
Trefnwyd yr anrhydeddau hyn drwy Aimlay, platfform addysgol sydd â'i bencadlys yn New Delhi, India, sy'n gweithio i sicrhau bod cyflawniadau eithriadol yn cael eu cydnabod gan brifysgolion o fri ac yn cael eu dathlu ar lefel fyd-eang.
Nid teitl academaidd yn unig yw Doethuriaeth Anrhydeddus — mae'n gydnabyddiaeth gydol oes o ragoriaeth, arweinyddiaeth a chreadigrwydd. Rhoddir anrhydedd o'r fath i unigolion sydd wedi mynd y tu hwnt i lwyddiant personol i wneud cyfraniadau ystyrlon i'w maes, eu cymdeithas, a dynoliaeth yn ehangach.
Trwy gydol ei yrfa ragorol fel athro ac addysgwr, bu Euros yn arloeswr wrth hyrwyddo dysgu'r Gymraeg ledled Cymru a thu hwnt. Mae wedi cyhoeddi nifer o lyfrau addysgu sydd wedi cael eu defnyddio gan ddysgwyr ac athrawon yn y wlad hon ac ar draws y byd ers dros 35 mlynedd.
Arweiniodd ei greadigrwydd a'i ysbryd arloesol ef hefyd i ddyfeisio a phatentu dyfais gyfieithu Saesneg–Cymraeg, wedi'i chynllunio'n benodol i helpu disgyblion ddysgu'r iaith yn gyflymach ac yn fwy effeithiol — tystiolaeth wirioneddol o'i weledigaeth a'i ddyfeisgarwch.
Oherwydd ei arbenigedd a'i weithgarwch ym maes addysg iaith, fe'i penodwyd yn Brif Arholwr ar gyfer y cwrs Estynedig Cymraeg Ail Iaith, ac yn ddiweddarach gwasanaethodd fel Hyfforddwr Cenedlaethol, gyda chyfrifoldeb dros weithredu'r Gymraeg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yn 1989. Chwaraeodd ran ganolog wrth ddatblygu modelau cwricwlwm ar gyfer addysg Cymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith.
Llwyddodd i drosi damcaniaethau ieithyddol a phedagogaidd cymhleth yn ganllawiau ymarferol i'r ystafell ddosbarth, gan ysgrifennu a darlithio'n helaeth, a chynhyrchu deunydd esboniadol sydd wedi bod o werth mawr i athrawon ledled Cymru.
Fel arolygydd ac ymgynghorydd ysgolion gyda'r hen Awdurdod Addysg Morgannwg Ganol, lluniodd nifer o gyhoeddiadau hyfforddiant mewn swydd ar addsgu Cymraeg, gan godi safonau darpariaeth ac ymarfer ar draws y pedair awdurdod unedol a oedd yn gysylltiedig â'r sir. Ni ellir gorbwysleisio ei gyfraniad i addysg Gymraeg — fel ymarferydd, arloeswr, arholwr, arolygydd, ymgynghorydd, awdur a hyfforddwr.
Yr un mor ysbrydoledig yw ei wasanaeth oes fel pregethwr a gweinidog yr efengyl. Mae ei ysgrifennu yn y maes hwn wedi dod â chysur ysbrydol i nifer dirifedi o ddarllenwyr. Mae ei lyfr dwys a theimladwy, Gweddio'r Salmau — a gyhoeddwyd yn 2024 ar ôl saith mlynedd o waith yn ystod ei adferiad o salwch difrifol — yn dystiolaeth ryfeddol o'i ffydd a'i ddyfalbarhad.
Er cydnabyddiaeth i'w waith toreithiog, pendrfynodd Aimlay gyhoeddi ei fywgraffiad o'r enw Navigating the Minority Footpath, sy'n olrhain ei daith oes wrth hyrwyddo dau leiafrif: yr iaith Gymraeg a'r ffydd Gristnogol, sydd bellach yn ffydd leiafrifol yng Nghymru fodern.
Gwahoddwyd ef hefyd i ysgrifennu Grand Mastery Handbook, a gyhoeddodd o dan y teitl The Healing Pathway – A Christian's Journey of Faith, Healing and Service. Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnig cipolwg manwl ar ei ymchwil a'i gyflawniadau. Ysgrifennwyd y ddau lyfr hyn mewn cyfnod anhygoel o dair wythnos yn unig, a'u lansio yn ystod y seremoni graddio yn San Francisco.
Ychwanegwyd at yr anrhydeddau hyn pan dderbyniodd y Parch. Jones-Evans y Wobr — Iconic Felicitation of Exemplary Achievements — IFEA , sy'n cydnabod unigolion eithriadol sydd wedi gwneud cyfraniadau pwysig ar draws meysydd amrywiol.
Yn olaf, fe'i hetholwyd yn Llysgennad Byd-eang Aimlay ar gyfer 2025, er cydnabyddiaeth i'w ymroddiad oes i'r iaith, addysg a ffydd. Ef oedd yr unig un i dderbyn yr anrhydedd hon am 2025.
Dywedodd Euros, "Feddyliais i erioed y byddwn yn 79 oed yn derbyn y fath anrhydeddau. Yn y seremnoni raddio yn San Francisco, cefais gyfle i siarad am fawredd a pherseiniedd yr iaith Gymraeg a hynny o flaen cynulleidfa fyd-eang o ysgolheigion."



**Euros yn derbyn y ddau dystysgrif**.

## Noson Lansio llyfr 'Bachu Cyfle' gan Ifan Phillips

*Parhad o tudalen flaen..*
Cafwyd datganiadau hyfryd gan Gôr y Clwb ar ddechrau a diwedd y noson dan arweiniad medrus Glesni Vaughan ac i gyfeiliant Ceirios Jenner - côr y bu Ifan yn aelod ohono flynyddoedd yn ôl. Braf oedd cael cwmni Alun Jones, sef golygydd y gyfrol, a oedd wedi teithio o Chwilog i fod yn bresennol yn y lansiad ynghyd â Lefi Gruffudd, Pennaeth Cyhoeddi Gwasg y Lolfa. Yn ogystal, mwynhawyd fideo o gyfarchion personol gan nifer o ffrindiau a chydweithwyr Ifan nad oedd yn medru bod yn bresennol ar y noson, yn dymuno'n dda iddo ac yn ei ganmol am ei bositifrwydd a'i ddewrder ers y ddamwain. Roedd gwerthiant y llyfrau ar y noson dan ofal Siop Sian, Crymych.

Yn y gyfrol, mae Ifan yn rhannu ei atgofion hapus o'i ddyddie cynnar yn Ysgol Hermon, Ysgol y Frenni ac Ysgol y Preseli ac hefyd fel chwaraewr ifanc gyda Chlwb Rygbi Crymych. Dilynwn ei yrfa rygbi a'i gamp yn ennill cap dros Gymru o dan 20 oed cyn i'w yrfa broffesiynol gyda'r Gweilch ddod i ben yn erchyll o sydyn yn dilyn ei ddamwain beic modur ar y 5ed o Ragfyr 2021. Cawn ddisgrifiadau llawn emosiwn o'r modd y mae Ifan wedi addasu i'w fywyd newydd fel dyn ifanc anabl. Fe dystiwn i'w wytnwch a'i ddyfalbarhad wrth iddo ymdrechu i ddygymod ag heriau iechyd meddwl yn ogystal â'i heriau corfforol. Mae'r gyfrol hefyd yn cynnwys hanesion difyr a doniol o'i brofiadau fel sylwebydd rygbi dros y blynydde diwethaf. Yn gefndir i'r cyfan, mae Ifan yn cydnabod pa mor ffodus y bu yn llwyddo i oroesi'r ddamwain nôl yn 2021. Trwy gydol yr hunangofiant, mae ei ddiolch a'i werthfawrogiad i bawb a fu'n gefen iddo - ac yn arbennig felly i gymuned Crymych a'r ardal - yn hollol amlwg ac yn ddidwyll iawn.
Mae'r llyfr ar werth mewn siopau lleol. Pob hwyl gyda'r darllen!
Dymuna'r Cardi Bach longyfarch Ifan Phillips ar lansiad ei lyfr "Bachu Cyfle" gan ddiolch iddo hefyd am fod yn gymaint o ysbrydoliaeth i ni gyd. Pob dymuniad da i ti Ifan i'r dyfodol. ( Gol )



**Ifan Phillips yn arwyddo.**



**Ifan, Wyn, Alun a Lefi**



**Ifan gyda Iola ( Fam) a Kevin ( Dad )**


**FFERYLLFA EVANS**
MEDICAL HALL • REBECCA HOUSE
San Clêr
01994 230444 01994 230456
eich canolfan gofal iechyd lleol
*Cyngor rhad ar gael gan ein staff profiadol*

**Celia Vlismas Optegydd**

Castell Newydd Emlyn
01239 711888
♦
Arberth
01834 861373
www,vlismas-opticians.co.uk
Rydym yn croesawu cleifion newydd - boed preifat neu o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
Edrychwn ymlaen i'ch gweld

**Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf**
Robert W. R. Morgan
ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol: 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

## Noson lansio llyfr “Dal i fod yn fi” gan Mari Grug cynrychiolydd

*Parhad o tudalen flaen..*
Roedd camerau Tinopolis yn ffilmio y digwyddiad ar gyfer eitem ar Heno ac roedd y cyflwynydd Dafydd Wyn Rees yn bachu ar y cyfle i sgwrsio gyda aelodau o’r teulu ac ambell berson yn y gynulleidfa.
Cyflwynwyd y noson gan Meleri Wyn James o Wasg y Lolfa a hi hefyd oedd wedi cyd ysgrifennu y llyfr.
Heledd Cynwal oedd yn gyfrifol am holi Mari a chafwyd tipyn o hwyl wrth iddi hel atgofion am ei phlentyndod ym Mynachlogddu, gweithio gyda Robert yng Nghaffi Beca ac ei phrofiadau yn yr ysgol gan gyfeirio at y diweddar barchus brifathro Mr Martin Lloyd yn ei dwrdio am fod yn hwyr i wersi - ac yna yn troi ei gefn ac yn chwerthin yn braf.
Ma’r llyfr yn cyffwrdd â’r llon a’r lleddf ac yn gofnod o fywyd cynnar Mari, ei phrofiadau ym myd gwaith a’i deiagnosis o ganser y fron a sut ma hi a’i theulu yn delio gyda’r cyfan. Mae Mari yn agored ac yn onest wrth ysgrifennu am ei phrofiadau ac ar adegau mae yn gweld pethau yn dywyll. Ond mae rhaid cadw fynd a bod yn bositif ac mae hyn yn sicr yn cael ei adlewyrchu yn gryf yn y llyfr. Gobaith Mari wrth gyhoeddi’r gyfrol y bydd yn gymorth ac yn ysbrydoliaeth i eraill.
Siop Siân oedd yn gyfrifol am werthu’r llyfr ar y noson a bu Mari wrthi yn ddiwyd yn llofnodi y gyfrol.
Erbyn hyn mae’ r llyfr wedi gwerthu allan ac mae ail argraffiad wedi cyrraedd y siopau.
Dymuna’r Cardi Bach longyfarch Mari Grug ar lansiad ei lyfr “Dal i fod yn fi” gan ddiolch iddi hefyd am fod yn gymaint o ysbrydoliaeth i ni gyd. Pob dymuniad da i ti Mari ( Gol)



Mari yn dosbarthu ei llyfr



Mari a’i chwiorydd




Mari a Heledd Cynwal

TŷBACHTWT
ANRHEGION • GIFTS
• CRYMYCH •
01239 831141/ 07900 692678

G. & J.M. Phillips
CONTRACTWYR TRYDANOL
Caerdaf, Spring Gardens,
Hendygwyn ar Daf
SA34 0HE
Ffôn: 01994 241015
Symudol: 07771 601412
NICEIC Contractwr Cydnabyddedyg

GP Architecture Studio
Arbenigo mewn dyluniadau preswyl pwrpasol
Adnewyddu amryw o Gartrefi
Anheddau Pwrpasol Newydd
Addasiadau Cyfoes
Cadwraeth Traddodiadol
RIBA arb

# Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf

## CARIAD O BETH CARDI BACH

## YSGOL BRO BRYNACH

**Diwrnod Shwmae Su'mae**
Ar ddiwrnod Shwmae Su'mae bu'r disgyblion yn dathlu drwy ymgymryd mewn amrywiaeth o weithgareddau hwyliog drwy gydol y dydd o wrando ar ganeuon Cymraeg, gemau a chelf.

**Eisteddfod Y Garreg Las**
Daeth y disgyblion i'r ysgol yn eu dillad eu hunain i helpu i godi arian ar gyfer dathliadau'r Eisteddfod 2026. Roedd y diwrnod heb wisg ysgol yn llwyddiant mawr gyda phawb yn dangos eu cefnogaeth ac yn cyfrannu at yr hyn sy'n addo bod yn ddigwyddiad diwylliannol gwych. Diolch yn fawr i bawb a roddodd! Diolch hefyd am eich rhoddion hael i Fanc Bwyd Hendygwyn.

**Sioe Shrek Ysgol Dyffryn Taf**
Aeth disgyblion blwyddyn 5 a 6 i ysgol Dyffryn Taf i weld sioe Shrek. Mwynhaodd pawb y sioe yn fawr iawn – roedd hi'n llawn canu, dawnsio ac actio gwych! Cafodd y disgyblion eu hysbrydoli gan dalent yr actorion. Diolch yn fawr i Ysgol Dyffryn Taf am y croeso cynnes a'r perfformiad arbennig.

**Ymweliad gan y PCSO's ar Frigâd dân**
Cafodd Blwyddyn 2 i 6 ymweliad gan ein PCSO's lleol ac Eleanor o'r Frigâd Dân. Siaradwyd â'r plant am bwysigrwydd aros yn ddiogel ar Noson Calan Gaeaf a Thân Gwyllt. Dysgodd y plant sut i fwynhau 'tric neu drin' a phwysigrwydd bod yn gyfrifol, cofio bod yn weladwy yn y tywyllwch, a sut i fod yn ofalus wrth ymdrin â thân gwyllt a ffyn gwreichion.

**Rygbi**
Cafodd bechgyn blynyddoedd 5 a 6 amser da yn cynrychioli'r ysgol yn nhwrnament rygbi yr Urdd. Da iawn chi fechgyn.

**Cwrdd Diolchgarwch**
Thema ein Cwrdd Diolchgarwch eleni oedd 'Y Creu'. Gwnaeth pawb eu gwaith yn arbennig o dda, gan ddysgu geiriau a siarad o flaen cynulleidfa. Roedd y casgliad eleni yn mynd tuag at Fanc Bwyd Hendygwyn, diolch i bawb am eu cyfraniadau hael. Llongyfarchiadau i Harvey am ei boster a chafodd ei ddewis fel clawr ein rhaglen eleni. Diolch i'r Parchedig Carol am ei neges i'r disgyblion. Ar ddiwedd yr hanner tymor daeth Helen, cynrychiolydd a gwirfoddolwriag o'r banc bwyd allan i gasglu'r holl roddion a siec wrthym.



**Trip Dosbarth Lliwe**
Yn dilyn gwneud gwaith ar ddefnyddiau naturiol yn y dosbarth aeth disgyblion dosbarth Lliwe am dro i Siop Adeiladu DP yn y pentref, am drip hyfryd gyda'r disgyblion yn holi cwestiynau a gwrando'n astud ar Darren a Becky yn siarad am y nwyddau sydd ar gael i brynu. Yn dilyn yr ymweliad crëwyd siop adeiladu yn y dosbarth. Diolch yn fawr iawn i Darren a Becky Phillips am eu croeso ac am dywys ni o amgylch y safle.



**Brenin y March**
Ar y 6ed o Dachwedd teithiodd pawb o'r ysgol gyda'u ffrindiau o Ysgol Beca i'r Lyric, Caerfyrddin i wylio'r sioe Brenin y March gan Gwmni Mega. Cafwyd amser gwerth chweil gyda phawb yn mwynhau. Braf cefnogi cwmni person lleol a cyn disgybl Ysgol Beca, Gwydion Griffiths.

**Wythnos Gwrth-Fwlio**
Yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 10fed o Dachwedd buodd y disgyblion yn gwneud gwaith am wrth fwlio gan ganolbwyntio ar garedigrwydd. Roedd yn wythnos fuddiol iawn er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwnc pwysig.

**Diwrnod Plant Mewn Angen**
Mwynheuodd y disgyblion godi arian ar gyfer elusen Plant Mewn Angen ar y 14eg o Dachwedd. Buodd nwyddau Pydsi ar werth yn yr ysgol, cynhaliwyd siop gyfnewid teganau a jigsos. Buodd y disgyblion hefyd yn addurno cacennau, creu crefftau, mwynhau disgo, cwis a gweithgareddau corfforol. Gwnaeth disgyblion o ystod oedran gwahanol gymryd rhan yn y gwasanaeth. Gweithiodd pawb yn galed gyda'i gilydd i gefnogi achos bendigedig.



## YSGOL BECA

**Cogurdd a Phoburdd**
Da iawn i bawb a gymerodd ran yng nghystadleuaeth Cogurdd a Phoburdd. Diolch yn fawr iawn i Janet Harris am roi ei hamser i feirniadu. Roedd y safon yn uchel iawn a llongyfarchiadau enfawr i Huw a ddaeth yn fuddugol yn y Cogurdd ac i Lucy a ddaeth yn fuddugol yn y Poburdd. Pob lwc i'r ddau yn y rownd nesaf.

**Cwrdd Diolchgarwch**
Ar ddydd Mercher, 15fed o Hydref cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch. Da iawn i bob disgybl am berfformio mor dda yng Nghapel Nebo. Diolch o galon i bawb wnaeth ymuno gyda ni ac am eich rhoddion hael tuag at Tir Dewi.



**Trip Dysgu Sylfaen**
Thema Dosbarth Carn Gyfrwy'r tymor hwn yw ailgylchu ac ailddefnyddio. Mae'r disgyblion wedi mwynhau creu hysbyseb deledu a phosteri i annog pobl i roi eu sbwriel yn y bin. I ddathlu'r thema yma, cawsant amser arbennig wrth ymweld â Chanolfan Ailgylchu Nantycaws, lle dysgon nhw fwy am y prosesau o ailgylchu ac ailddefnyddio.



**Y plant yn mwynhau y trip**

**Diwrnod Shwmae Su'mae**
Cawsom ddiwrnod hwylus yn dathlu diwrnod Shwmae Su'mae ar ddydd Iau 16eg o Hydref. Roedd y dosbarthiadau yn llawn cyffro a chynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau i ddathlu'r diwrnod arbennig hwn.

**Sioe Brenin March**
Ar ddydd Iau 6ed o Dachwedd cafodd y disgyblion cyfle i fynd i'r Lyric yng Nghaerfyrddin i fwynhau sioe Brenin March. Diolch i gwmni Mega am drefnu pantomeim hwylus i'r disgyblion.

**Diwrnod i'w gofio**
Ar ddydd Mawrth, 11eg o Dachwedd bu'r Cyngor Ysgol yn gwerthu pabis coch i godi arian i'r Lleng Prydeinig Brenhinol. Yn ystod y diwrnod bu disgyblion yn creu pabi coch, torchau a chafwyd 2 funud o dawelwch.

**Pêl-rwyd**
Da iawn i Ferched Ysgol Beca am gystadlu yng nghystadleuaeth pêl-rwyd Urdd Sir Benfro ar ddydd Mawrth, 11eg o Dachwedd. Roedd pawb wedi cynrychioli'r ysgol a chystadlu yn wych! Da iawn



**Plant mewn Angen**
I ddathlu Diwrnod Plant Mewn Angen mwynhaodd y disgyblion grefftau Pudsey, disgo arbennig, a dysgu dawns 25-cam gyda chast Strictly. Cerddon nhw 25 lap o'r ysgol hefyd, i godi arian ar gyfer yr achos anhygoel hwn. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Diwrnod Shwmae Sumae**
Roedd hi'n hyfryd clywed disgyblion yr ysgol yn cyfarch ei gilydd a'r staff gyda gwên a 'Shwmae'. Roedd y dosbarthiadau yn llawn cyffro a chynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau i ddathlu'r diwrnod arbennig hwn. Diolch i'r Llysgenhadon Iaith am arwain y gweithgareddau sef Alffi, Nile, Harri, Oliver, Betsi, Lilly May ac Akira.

**Gwasanaeth Diolchgarwch**
Braf oedd croesawu rhieni disgyblion Blwyddyn 6 i ymuno â ni yn ein Gwasanaeth Diolchgarwch eleni. Cyflwynwyd eitemau amrywiol gan y disgyblion ar y thema ' Cadw'n Iach'. Diolch i'r Parchedig Sian Elin Thomas am annerch y plant. Casglwyd tuag at elusen Sandy Bear.

**Parti Calan Gaeaf CRAFf**
Roedd neuadd yr ysgol dan ei sang unwaith eto ym mharti Calan Gaeaf y gymdeithas. Roedd y disgyblion a nifer o rieni wedi gwneud ymdrech arbennig gyda'u gwisgoedd.

**Gwersyll Pentywyn**
Er gwaethaf yr holl law a'r llifogydd cafodd Blwyddyn 6 Pwyll a Myrddin amser hwylus iawn yng Ngwersyll Pentywyn. Bu'r plant yn cymeryd rhan mewn tasgau awyr agored gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau cyd-weithio fel tîm. Cafodd y plant gyfle i ddatblygu sgiliau gan gynnwys dringo, canŵio a chyfeiriannu. Diolch i staff y gwersyll am eu brwdfrydedd wrth hyfforddi'r plant.

**Cogurdd**
Bu nifer o ddisgyblion yn cystadlu yng nghystadleuaeth Coginio'r Urdd – Cogurdd. Y dasg oedd i baratoi brechdan agored. Roedd yn rhaid i'r plant arddangos sgiliau cynllunio, trafod cyllell, gweithio i amser ac arddangos y bwyd yn ddeniadol. Llongyfarchiadau i'r canlynol am eu sgiliau coginio gwych 1af – Ethan Hallet, 2il – Chloe Mason, 3ydd – Lottie Howells. Bydd Ethan yn mynd ymlaen i gystadlu yn y rownd Rhanbarthol nes ymlaen yn y tymor lle bydd yn coginio brecwast sawrus.

**Poburdd**
Cynhaliwyd cystadleuaeth 'Poburdd' yn yr ysgol a'r dasg eleni oedd coginio cacen i ddathlu achlysur. Daeth 36 o gacennau bendigedig, diolch i Mrs Angharad Lloyd am y gwaith beirniadu anodd! Llongyfarchiadau i :- Sam Davies 1af, Gethin Jones 2il ac Arthur Holiday 3ydd. Bydd Sam yn coginio ei gacen eto yn y rownd rhanbarthol ar ddiwedd y mis.

**Sul y Cofio**
Bu'r Cyngor Ysgol yn gwerthu pabis coch i godi arian i'r Lleng Brydeinig Frenhinol. Aeth y Cyngor Ysgol i lawr i'r gofeb i osod torch gan ymuno mewn gwasanaeth 'Cofio' arbennig gydag aelodau o'r gymuned leol.



**Sul y Cofio**

**Plant Mewn Angen**
Cafwyd diwrnod o hwyl a sbri ar ddiwrnod Plant Mewn Angen. Daeth y disgyblion a'r staff i'r ysgol yn eu pyjamas gorau. Cynhaliodd y Cyngor Ysgol wasanaeth arbennig i atgoffa'r disgyblion o bwysigrwydd yr elusen yma.

**Chwaraeon**
Daeth aelodau o dim yr Urdd i gynnal gweithdai chwaraeon gyda dosbarthiadau Cam Cynnydd 2 a 3. Gwnaeth tim rygbi bechgyn Blwyddyn 5 a 6 yn wych i ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth rygbi'r Urdd a gynhaliwyd ar gaeau rygbi Natntgaredig.
Braf oedd croesawu Sarah o fudiad Criced Cymru yn ôl atom i ddatblygu sgiliau criced disgyblion Blwyddyn 1 a 2.



**Ymweliadau**
Aeth disgyblion Blwyddyn 6 o ddosbarthiadau Pwyll a Myrddin i fwynhau perfformiad o sioe 'Shrek' yn Ysgol Dyffryn Taf. Braf oedd gweld nifer o gyn-ddisgyblion ein hysgol yn rhan o'r sioe.
Teithiodd tri llond bws o ddisgyblion Blynyddoedd 2-5 i Theatr y Lyric i fwynhau perfformiad o bantomeim cwmni Mega sef 'Brenin March'. Bu llawer iawn o weiddi a chwerthin gyda'r plant a'r staff wrth eu bodd gyda'r perfformiad!

**Cyngor Eco**
Bu'r Cyngor Eco'n brysur yn trefnu casgliad o hen ddillad i'w hail-gylchu ar gyfer cwmni 'Dragon Bags'. Diolch i bawb a gyfrannodd at y casgliad.



## YSGOL BANCYFELIN

**Bible Explorers**

Diolch o galon i Ms Michelle Beer am ddod i Ysgol Bancyfelin i gynnal gwersi Bible Explorers. Mae'r plant wedi dysgu llawer am yr Hen Destament trwy wersi bywiog a diddorol llawn symudiadau a chwestiynu. Maent hefyd wedi bod yn ddigon ffodus i dderbyn copïau personol o'r Beibl Cymraeg i Blant am ddim trwy'r cynllun – diolch i Mrs Janet Hawking am drefnu'r sesiynau.



**Plant yr Ysgol gyda'i Beiblau**

**Ymweliad yr Heddlu**

Diolch o galon i PCSO Jones a PCSO Davies-Morris am ymweld â'r ysgol er mwyn trafod pwysigrwydd bod yn synhwyrol ar Noson Calan Gaeaf a rhannu neges bwysig - joia a bihafia.

Gwnaethant hefyd drafod diogelwch ar Noson Tân Gwyllt – rheolau pwysig iawn i'w dilyn er mwyn mwynhau ond hefyd cadw'n ddiogel.

**Cwrdd Diolchgarwch**

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch y Ffederasiwn yn Eglwys Ystyffan eleni ac mae ein diolch yn fawr iddynt am gytuno i ni gael defnyddio'r Eglwys fel ein man addoli. Bu'r dair ysgol yn cyflwyno gwasanaeth yn seiliedig ar ddiolch am y cynhaeaf – hyfryd oedd cael cyd-weithio ar draws y Ffederasiwn a dod at ein gilydd.

**Diwrnod Gwyddoniaeth y Ffederasiwn**

Trefnwyd diwrnod Gwyddoniaeth arbennig yn Ysgol Llansteffan ar gyfer y Ffederasiwn o dan ofal Gethin o'r Sefydliad Gwyddoniaeth Brenhinol. Mwynhaodd ddisgyblion Ysgolion Bancyfelin, Llangain a Llansteffan sesiynau bywiog, hwylus llawn o arbrofion gwyddonol diddorol dros ben. Cawsant gyfle i ddysgu am wahanol fathau o egni a sut mae'r egni yma yn cael ei ddefnyddio a'i drawsnewid o un ffurf i un arall.

## YSGOL HAFODWENOG

Bu mis Hydref yn fis prysur arall i staff a disgyblion yr Ysgol. Diolch I bawb am eu cefnogaeth a'u hymroddiad. Dyma ychydig o hanes digwyddiadau a llwyddiannau'r Ysgol dros y mis diwethaf.

**Gwasanaeth Diolchgarwch**

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol yr Ysgol yng Nghapel y Graig, Trelech, ar ddechrau'r mis. Braf oedd gweld pob un disgybl yn cyfrannu a pherfformio yn y gwasanaeth. Gwnaethom hefyd groesawu Rhian Evans o'r elusen Llyfrau Llafar i roi anerchiad i ni am ei bywyd â nam golwg ac i sôn wrthym am yr elusen Llyfrau Llafar Cymru. Gwnaed casgliad at yr elusen hon yn ystod y gwasanaeth.

**CogUrdd**

Roedd arogl hyfryd yn yr Ysgol ar ddiwrnod cystadleuaeth CogUrdd eleni wrth i'r disgyblion greu 'Brechdan Agored'. Bu 9 wrthi'n cystadlu. Llongyfarchiadau mawr i Iwan am ddod i'r brig. Pob lwc i ti yn yr rownd nesaf. Diolch hefyd i Mrs Rhian Howells-Jones am ei gwaith yn beirniadu'r gystadleuaeth.

**Hafod Hwylus**

Hafod Hwylus yw Cyngor yr ysgol. Maent yn gyfrifol am drefnu digwyddiadau elusennol a chymdeithasol. Braf felly oedd ethol pwyllgor newydd ar gyfer y flwyddyn hon. Pob lwc iddynt yn eu rolau.




**Dysgyblion Cyngor Ysgol Hafodwenog**

**Cinio Cymuned**

Braf oedd croesawu trigolion lleol yr ardal i ymuno a'r plant i gael cinio yn ystod y mis. Cynhelir cinio cymuned bob tymor gan groesawu aelodau o'r gymuned i'r ysgol i gael eu cinio. Roedd hi'n hyfryd i weld 17 wedi dod atom y tro hwn. Diolch i'n cogyddes, Miss Andrea, am fwydo pawb.

## YSGOL BRYNCONIN

**Shwmae!**
Da iawn i aelodau Cabinet Iaith a Diwylliant yr Ysgol am drefnu diwrnod llawn hwyl ar 15fed o Hydref, sef diwrnod Shwmae. Gwisgodd pawb mewn coch ac fe wnaeth rhai mentro i wisgo fel person enwog o Gymru. Cynhaliodd y plant hŷn gwis Cymraeg i'r plant lleiaf, rhannwyd hoff air Cymraeg y plant a chafwyd disgo Cymraeg i orffen y diwrnod mewn steil.

**Cymanfa Ganu Capel Pisgah**
Braf oedd clywed y plant yn canu fel Ffederasiwn ar fore Sul, 19eg o Hydref yng Nghapel Pisgah fel rhan o Gymanfa Ganu Capeli yr ardal. Fe wnaethon nhw ganu yn wych ac mi roedd yn brofiad cael canu yn y gymanfa a chael ein recordio ar gyfer rhaglen Radio Cymru; Caniadaeth y Cysegr. Edrychwn ymlaen i gael gwrando ar y rhaglen ar brynhawn Sul, 16eg o Dachwedd.



**Cwrdd Diolchgarwch**
Cafwyd bore arbennig yng Nghapel Blaenconin ar ddydd Mercher, 22ain o Hydref pan gynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch. Braf oedd cael mynd yn ôl i'r capel unwaith eto a braf hefyd oedd cael y rhieni a'r gymuned yn rhan o'r gwasanaeth. Ein thema eleni oedd 'Hawliau ' a diolch i'r plant am berfformio eu rhannau mor dda. Diolch hefyd i Mr Lox Busisa (Love Your Neighbour) a roddodd anerchiad arbennig a phwysig i'r plant; i aelodau Capel Blaenconin am adael i ni ddefnyddio'r Capel ac i bawb sydd wedi cyfrannu tuag at ein casgliad i'r elusen 'Love Your Neighbour'. Codwyd £200 i'r elusen – diolch i chi gyd.



**Diolch!**
Diolch enfawr i rieni am drefnu Noson Canu Gwlad i godi arian i'r Ysgol. Codwyd swm anhygoel o £1,342 i'r Ysgol. Diolch o waelod calon i waith caled y rhieni yma.

**Gala Nofio**
Da iawn i bawb a gystadlodd yn y gala nofio ar fore Iau, 23ain o Hydref ym Mhwll Nofio Arberth. Diolch i Miss Kim a Miss Sharon am ofalu am y plant ac am drefnu y gystadleuaeth.



**Cyflwyno i'r Llywodraethwyr**
Da iawn i aelodau Senedd yr Ysgol am gyflwyno eu gwaith i'r Llywodraethwyr ar nos Iau, 23ain o Hydref. Cafwyd cyfle i rannu syniadau a llais y plant.

**Cogurdd/Poburdd**
Da iawn i bawb a gymerodd ran yng nghystadleuaeth Cogurdd a Phoburdd ar Ddydd Gwener, 24ain o Hydref. Diolch o waelod calon i Shirley am roi ei hamser i feirniadau eleni eto. Roedd y safon yn uchel iawn ac roedd cacennau yn edrych yn ffantastig. Llongyfarvchiadau enfawr i Heti am ennill y Cogurdd ac i Ffion am ennill y Poburdd. Dymuniadau gorau i'r ddwy yn y rownd sirol ym mis Tachwedd.

**Gweithdy Criw Craff**
Braf oedd cael dysgu am ddiogelwch yng ngweithdy blynyddol Criw Craff yn Hwlffordd ar ddydd Gwener, 7fed o Dachwedd. Cafodd Dosbarth Rhuddem y cyfle i weithio gydag ysgolion eraill ar gadw'n ddiogel.

## YSGOL LLYS HYWEL

**Dathlu 150 Mlynedd o'i Hadeilad Ysgol**
Cynhaliwyd noson gofiadwy yn Ysgol Llys Hywel i ddathlu'r adeilad yn 150 mlwydd oed, gan nodi carreg filltir arwyddocaol yn hanes addysg o fewn y gymuned leol. Dechreuodd y digwyddiad gyda thaith o amgylch yr ysgol, gan gynnig cyfle i westeion edmygu nifer o'r nodweddion gwreiddiol a gweld sut mae'r adeilad wedi datblygu ac addasu dros y degawdau. Estynnwyd diolch arbennig i Mrs Valarie Davies am ei chymorth amhrisiadwy wrth arwain hyn.

Roedd yn bleser croesawu cymaint o wynebau cyfarwydd ac anghyfarwydd i'r dathliad. Mwynhaodd y gwesteion de a chacen wrth rannu lluniau, atgofion a straeon, ac i lawer roedd yn gyfle i ailgysylltu ag hen gyfeillion ysgol, athrawon ac hyd yn oed gynbennaethiaid. Diolch arbennig i Liz's Bakery, Arberth, am gyfrannu cacen hardd wedi'i chrefftio'n ofalus i farcio'r achlysur.

Daeth y noson i ben gyda pherfformiadau gan aelodau Côr Ysgol Llys Hywel a Chôr Meibion Hendygwyn ar Daf, gyda'u perfformiadau o ffefrynnau traddodiadol yn cynnig diweddglo addas i ddathliad rhagorol.

Bu'r digwyddiad yn llwyddiant ysgubol, gan adlewyrchu balchder y gymuned a threftadaeth barhaol Ysgol Llys Hywel dros y 150 mlynedd diwethaf.




Y Gagen



Plant yr ysgol yn canu




**Staff yr Ysgol**

Jones Login
Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

Login
Hendygwyn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn: 01437 563277
www.joneslogin.co.uk





| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Tachwedd 2025** | | |
| Sad 29 | **Goleuadau Nadolig Palas Blenheim a Windsor** | 2 |
| **Rhagfyr 2025** | | |
| Sad 6 | Marchnadoedd Nadolig Caerfaddon | 1 |
| Sad 13 | Nadolig yng Nghanolfan Arddio Yr Hen Rheilffordd ger Aberhonddu | 1 |
| Sad 13 | *Sioe Gerdd - Mary Poppins, CMC a Bae Caerdydd* | 1 |
| **Ionawr 2026** | | |
| Sad 10 | **ABBA Voyage a Windsor** (dim ond un sedd ar ôl) **(Dyddiad newydd ar gael ym Mis Medi 2026!)** | 2 |
| **Chwefror 2026** | | |
| Gwe 6 | **Torquay - Cynheswr Gaeaf** | 4* |
| Sad 7 | *Sioe Gerdd - Here & Now (Cerddoriaeth Steps)* | 1 |
| Llun 16 | **Gwesty Warner - Holme Lacy** | 5* |
| Sad 18 | *Sioe Gerdd Tina Turner, Caerdydd* | 1 |
| **Mawrth 2026** | | |
| Gwe 20 | **'A Fab 4 Days in Liverpool'** | 4* |
| Sad 21 | *Sioe Gerdd - Barnum, Caerdydd* | 1 |
| **Ebrill 2026** | | |
| Llun 13 | **'Avon's Calling'** | 5* |
| Sul 19 | **Te Prynhawn Brenhinol yn Windsor** | 2 |
| Tue 21 | *Rick Astley, Caerdydd* | 1 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Mai 2026** | | |
| Llun 11 | **Canolbarth Cudd Iwerddon** | 6* |
| Sad 16 | *Sioe Gerdd - Stori Buddy Holly, Caerdydd* | 1 |
| **Mehefin 2026** | | |
| Llun 1 | **Fforiwr Arfordir y De** | 5* |
| Sad 6 | *Sioe Gerdd - Miss Saigon, Caerdydd* | 1 |
| Sul 7 | **Te Prynhawn yng Nghaerfaddon** | 3* |
| Llun 8 | **Gwesty Warner—Thorseby Hall** | 5* |
| Sad 13 | **Rheilffordd Mynydd Aberhonddu** | 1 |
| Sad 13 | *Sioe Gerdd - Waitress, Caerdydd* | 1 |
| Maw 16 | *Take That, Caerdydd (Bws yn unig, dim tocyn)* | 1 |
| Mer 17 | **Diwrnod y Merched - Royal Ascot** | 3 |
| Sad 20 | *Sioe Gerdd - Legally Blonde, Caerdydd* | 1 |
| Llun 22 | **Ynys Mannaw** | 6* |
| Sad 27 | *Drama - Fawlty Towers, Caerdydd* | 1 |
| **Gorffennaf 2026** | | |
| Sad 4 | **Yr Alban - Highland Fling** | 7 |
| Sad 11 | *Sioe Gerdd - Annie, Caerdydd* | 1 |
| Maw 21 & Mer 22 | Sioe Frenhinol Cymru | 1 |
| Llun 27 | **Llandudno** | 5* |
| **Awst 2026** | | |
| Llun 3, Mer 5 a Gwe 7 | Eisteddfod ardal 'Y Garreg Las' | 1 |

**2025 yw ein pen-blwydd yn 60 oed. Mae siawns i ennill Taleb Teithio ar bob taith yn ystod y flwyddyn.**

***Gwasanaeth Dwrs i ddrws ar y teithiau yma / Llyfryn 2026 ar gael nawr!!**

**Gallwch archebu ar lein, dros y ffôn, neu mewn person yn ein swyddfa**

CYFRES wenfro

# Bisgedi Blasus

**CYSTADLEUAETH Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro**

Mae Mam-gu Iet-wen wedi pobi bisgedi blasus i'w ffrindiau, ond wedi eu gosod yn y drefn anghywir yn y bocs.

**Aildrefnwch y bisgedi i ddarganfod ei neges.**

_ _ _ _ _ _ _ _   _ _ _ _ _




**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/01/26**

**Leia Mair Jenkins, Meidrim, yw enillydd Cystadleuaeth Lliwiau'r Hydref**

Ateb: Broga, Llyffant, Draenog, Gwiwer, Crwban a Neidr oedd yn cysgu o dan y dail.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓗ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2025

**Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.**



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## TEITHIAU 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llun 15fed Rhag | Marchnadoedd NADOLIG BRUGES, GHENT a LILLE | £695 | 5 Diwrnod |
| Maw 30ain Rhag | Dathlwch y FLWYDDYN NEWYDD YN PAIGNTON | £585 | 4 Diwrnod |
| Maw 30ain Rhag | Dathlwch DYDD CALAN gyda'r Gwyddelod yn WATERFORD | £595 | 4 Diwrnod |

## 2026

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwe 9fed Ion | PENWYTHNOS o fwynhau yn y BELGRAVE SANDS, TORQUAY | £290 | 4 Diwrnod |
| Gwe 23ain Ion | Cerddoriaeth Teyrnged llawn hwyl yn BABBACOMBE | £315 | 4 Diwrnod |
| Sul 8fed Chwef | LLANDUDNO Teithio'r moroedd mawr dros nos i wahanol wledydd | £565 | 5 Diwrnod |
| Gwe 13eg Chwef | WESTON SUPER MARE | £345 | 4 Diwrnod |
| Llun 16eg Chwef | DISNEYLAND PARIS (Amser gwyliau Ysgol, prisiau teulu) | Ffoniwch | 4 Diwrnod |
| Llun 23ain Chwef | (Newydd) HARROGATE "Super Singles" Ystafelloedd Sengl yn unig | £560 | 5 Diwrnod |
| Gwe 27ain Chwef | CAERNARFON Clive a'i Ffrindie yn rocio Gwesty'r CELT (Hwyl di ri) | £280 | 3 Diwrnod |
| Mer 4ydd Mawrth | RYGBI 6 Gwlad IWERDDON v CYMRU yn DULYN ( 1 - Stillorgan) | £475 | 4 Diwrnod |
| Mer 4ydd Mawrth | RYGBI 6 Gwlad IWERDDON v CYMRU yn DULYN ( 2 - Bonington) | £475 | 4 Diwrnod |
| Mer 4ydd Mawrth | RYGBI 6 Gwlad IWERDDON v CYMRU yn DULYN (3 – Enniscorthy) | £385 | 4 Diwrnod |
| Gwe 6ed Mawrth | (Newydd) Penwythnos dirgelwch y llofruddiaeth yn TORQUAY | £385 | 4 Diwrnod |
| Iau 12fed Mawrth | Darganfyddwch ardal DOC MARTIN yn ST AGNES, arfordir CERNYW | £450 | 5 Diwrnod |
| Llun 16eg Mawrth | (Newydd) DAWLISH WARREN ac arfordir DYFNAINT | £445 | 4 Diwrnod |
| Gwe 20fed Mawrth | LOOE, arfordir Cernyw, a'r "EDEN PROJECT" | £355 | 4 Diwrnod |
| Gwe 27ain Mawrth | Penwythnos yn EFROG a'r ardal | £350 | 4 Diwrnod |
| Maw 7fed Ebrill | ???? TAITH DDIRGEL MIS EBRILL ???? | £595 | 5 Diwrnod |
| Gwe 10fed Ebrill | TORQUAY, TOTNES a bẁa chacen ar daith Cwch ar yr Afon Exe | £385 | 4 Diwrnod |
| Mer 15fed Ebrill | Blas o Gymru yng Nghwesty'r TYNEDALE, LLANDUDNO | £580 | 5 Diwrnod |
| Sul 19eg Ebrill | (Newydd) CHELTENHAM, TEWKESBURY a'r COTSWOLD's | £595 | 5 Diwrnod |
| Gwe 24ain Ebrill | (Newydd) PASHLEY MANOR – "Tulip Festival" | £285 | 3 Diwrnod |
| Llun 27ain Ebrill | (Newydd) BOURNEMOUTH a'i Chelf Ysblennydd | £515 | 5 Diwrnod |
| Sad 2ail Mai | Teithiau amrywiol o amgylch Ynys JERSEY | £865 | 8 Diwrnod |
| Sad 9fed Mai | (Newydd) ALPAU FFRAINC, CHAMONIX a Llyn ANNECY | £1,285 | 8 Diwrnod |
| Llun 11fed Mai | Rheilffyrdd Rhamantus LLANBERIS a GOGLEDD CYMRU | £595 | 5 Diwrnod |
| Sul 17eg Mai | IWERDDON Bantry a'r Gulf Stream Coast | £745 | 6 Diwrnod |
| Gwe 22ain Mai | SIOE FLODAU CHELSEA | £465 | 3 Diwrnod |
| Sul 24ain Mai | Agêr a Mordaith Afon yn DYFNAINT a GWLAD YR HAF | £575 | 5 Diwrnod |
| Gwe 29ain Mai | WETHERSPOONS WANDERER | £285 | 3 Diwrnod |
| Llun 1af Mehef | Amser Rhamantus yn RYDE ar YNYS WYTH | £620 | 5 Diwrnod |
| Sul 7fed Mehef | Afon Frenhinol, Trefi a Gerddi i'w Cofio yn ardal Llundain | £595 | 5 Diwrnod |
| Sul 14eg Mehef | Taith Frenhinol Albanaidd, BALMORAL, GLAMIS ac Arwyr yr ALBAN | £870 | 7 Diwrnod |
| Llun 22ain Mehef | HARROGATE a'r YORKSHIRE DALES | £585 | 5 Diwrnod |
| Gwe 26ain Mehef | ????????? TAITH DDIRGEL MEHEFIN ????????? | £575 | 4 Diwrnod |
| Maw 30ain Mehef | ST ANTON a Golygfeydd Godidog o Fynyddoedd y SWISDIR | £1,575 | 8 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

# PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd Hapus i Effi Lye-Phillips sydd wedi dathlu ei phenblwydd yn 8 oed ar Ragfyr y 1af. Cariad mawr wrth y teulu i gyd.



Penblwydd Hapus i Doti Lye-Phillips a fydd yn 2 flwydd oed ar Ragfyr 31. Cariad mawr wrth y teulu i gyd.



Penblwydd hapus i Ava sydd wedi dathlu ei phenblwydd yn 9 oed Tachwedd 25 ac i Anni sydd yn dathlu ei phenblwydd yn 6 oed Rhagfyr 21! Cariad mawr odd wrth Mami, Dadi a Loti y ci.



Penblwydd Hapus i Tobi Wyn Davies yn flwydd oed ar Ragfyr 16eg. Mae Tobi'n fab i Rhodri a Hannah Davies, Plas Canol, Llanybri, yn frawd bach i Thom ac yn ŵyr i Lyn a Bethan Davies, Derlwyn Taf,



Penblwydd Hapus i Ffion Leeke o'r Bontfaen a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 8 oed ar Ionawr 2ail. Daw'r cyfarchion oddiwrth Tadcu a Nain (Ryland a Beti-Wyn), Anti Iona ac Wncwl Ceri a'r teulu i gyd.












# Cyfarchion yr Ŵyl



Pob dymuniad da dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. **Tony a Meinir Eynon a'r teulu, Penbontbren, Cwm Miles.**

Dymuna **Brian John, Rose Cottage, Cwmfelin Mynach** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w gwsmeriaid, teulu a ffrindiau.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl berthnasau, cymdogion a ffrindiau. Pob hwyl dros yr Ŵyl. **Rose ac Elgar Saer, 10 Stryd y Parc, Hendygwyn.**



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i deulu a ffrindiau oll. **Claude James a Gwyn, 43 Bryngwenllian, Hendygwyn.**

Dymuna **Mefin Lewis, Huan Aur, Login** Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, cymdogion a ffrindiau i gyd.

Dymuna **Meurig a Pat Davies, Llygad yr Haul, Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, cymdogion a ffrindiau.

Nadolig Llawen a phob dymuniad da am 2026 i'r teulu, cymdogion a ffrindiau oll oddi wrth **Grismond a Mary Lewis, Llwynllwyd.**

Dymuna **Marlene Lewis, Hafan Glyd, Pwlltrap Nadolig** Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i deulu, ffrindiau a chymdogion.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, cymdogion a ffrindiau oddi wrth **Angela Murray, 2 Piccadilly, Llanboidy.**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n teulu, ffrindiau a chymdogion. **Gwynlais, Mary a Buddug, Merlais.**

Dymuna **Wyn a Meirwen Evans** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'r teulu, cymdogion a ffrindiau.

Hoffwn fel teulu ddiolch i bawb ymhell ac agos am eich gweddiau, negeseuon caredig a'ch cefnogaeth barhaus a fu'n gysur mawr i ni yn ystod y misoedd gofidus ac anodd diwethaf.



Pob dymuniad da dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. **Graham John, Tŷ Capel, Bethlehem Newydd, Pwlltrap.**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, ffrindiau a chymdogion. **Merle Evans, Delfryn, Llanboidy.**

Cyfarchion y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i'm holl berthnasau a ffrindiau. **Beti Thomas, Cartref Glyn Nest, Castell Newydd Emlyn. (gynt o San Cler).**

Dymunaf i **Susan, Maes y Werin, Llanboidy** gyfarchion y tymor i'm teulu, ffrindiau a chydnabod. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Dymuna **Mair a Ronnie, 3 Piccadilly, Llanboidy** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, cymdogion, a ffrindiau Hwyl i bawb.

Dymuna **Teulu, 25 Gorsfach,** Pwlltrap Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau.

Dymuna **Ernest a Janet Jones, Heol Bronwydd, Caerfyrddin** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl deulu, cymdogion a ffrindiau.




Dymuna **Roy Reynolds, Tymore, Llangynin** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'r teulu, cymdogion a ffrindiau.

Hoffai **Dorian a Delyth Lewis a'r teulu Trefyw** ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu a ffrindiau.

Dymuna **Eurfyl a'r teulu Lluest, Llanglydwen** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion.

Cyfarchion y tymor i'r teulu, cymdogion a ffrindiau - oddi wrth **Llinos a Geraint, Carreglwyd, Llangynin.**

Cyfarchion yr Ŵyl i'n cymdogion, ffrindau a'r teulu oll. Oddi wrth **Eileen John, Cartref Waungron a Graham.**

Dymuna **Margaret a Dion, Cilowen, Login** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ffrindiau a pherthnasau.

Dymuna **Elfed ac Eifiona Lewis, Llangynin** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion.

**Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen**
Cyfarchion oddi wrth bwyllgor ac aelodau'r Ganolfan. Nadolig Llawen a phob bendith yn y Flwyddyn Newydd.

Dymuna **Nansi Evans, Penybont, Cwmfelin Mynach** Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion i gyd.

Dymuna **Carwyn, Sarah, Josh, Jac ac Ellie** Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl berthnasau, ffrindiau a chwsmeriaid.

Cyfarchion y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i'm holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion - oddi wrth **Roy Llewellyn, Bro Gronw, Cwmfelin Mynach.**



Cyfarchion y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion - oddi wrth **Don a Rita James, Hafan Hedd, Pwlltrap**

Dymuna **Eifion, Brynsiriol, Llanboidy** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, cymdogin a'i ffrindiau oll.
Hwyl i bawb.

Dymuna **Ann, Simon, Faith, Carys, Dafydd, Emily a Noah,** Carydd, Clunderwen Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl deulu, ffrindiau a chymdogion.

Nadolig Llawen a dedwydd i'n cymdogion, teuluoedd a ffrindiau oddi wrth **Anthony, Ceirios a'r teulu, Efailwen.**

Dymuna **Dorothy Jenkins, Gwynfa, Hendygwyn** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Mwynhewch yr Ŵyl.

Dymuna **Tegwen James, Penybryn, Blaenwaun** Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion i gyd.



Dymuna **Tudur, Rhodri a Ffion, Gwyndaf a Hannah a Nia** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Y Cardi Bach.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, cymdogion a ffrindiau -
**Richard a Non Murray a'r teulu, Maes-y-Ffynnon, Login.**

Cyfarchion y tymor i berthnasau cymdogion a ffrindiau
**Mel ac Elizabeth.**

Hoffai **Wyn Owens. Llwynhelyg, Mynachlogddu** ddiolch i'w deulu, ffrindiau a holl ddarllenwyr Y Cardi Bach. Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Dymuna'r **Cyng. Jean ac Ambrose Lewis** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i drigolion Ward Trelech, cymdogion, ffrinidau a pherthnasau.

Diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

Os oes angen cymorth plis cysylltwch ar 01994 484334 neu JeanLewis@carmarthenshire.gov.uk

***Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda***

oddi wrth

*Y Cynghorydd a Mrs Dorian Phillips*

*Dolau Gronw, Llanboidy Hendygwyn ar Daf*

Ffôn: 01994 448435

bdjphillips@carmarthenshire.gov.uk

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i deulu, cymdogion a ffrindiau oll. **Emrys Morgan, Sarnbwla, Bancyfelin**

Cyfarchion Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i ffrindiau a chymdogion oll - **John Arfon Cilhaul, Hendygwyn ar Daf.**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'm holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion. Diolch i bawb am eu caredigrwydd. **Doreen Adams, Llain Alaw, HDG.**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, cymdogion a ffrindiau -
**Geraint a Beti James, Coedllys.**

Dymuna **William John a Haulwen, Stag, Llanboidy** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w perthnasau a ffrindiau oll.




## CHWARAEON

### Clwb Rygbi Hendy Gwyn

**Tim cyntaf**

Hydref 11eg - colli i ffwrdd yn erbyn Penclawdd 20 - 12.
18fed - colli adref yn erbyn Casllwchwr 10 - 36
25ain - methwyd cael tim i chwarae yn erbyn Aberaeron, mae'r gem wedi ei gohirio tan y flwyddyn newydd.
Tachwedd 8fed - colli adref yn erbyn Pontarddulais sydd ar frig y gynghrair.

**Menywod**

Hydref 12fed - colli i ffwrdd yn erbyn Senghennydd.
Y gem nesaf i fffwrdd yn erbyn Ynysybwl.

**Suyzanne Davies**



**Tîm o dan 14**



**Tîm o dan 12**



**Tîm o dan 16**

## Clwb Rygbi SanClêr

Ar ôl dechrau heriol i dymor y gynghrair coesawon ni'r Hendy i Barc Griffith Jones, a oedd wedi curo'r ffefrynnau ar gyfer y gynghrair, Dinbych-y-pysgod, yr wythnos flaenorol. Roedd y tîm yn benderfynol o roi perfformiad da i'r dorf fawr, ac ni chafodd neb ei siomi. Drwy gryfder y mannau gosod llwyddodd y Seintiau i reoli'r diriogaeth yn yr hanner cyntaf i adeiladu mantais dda o 19-10.

Dibynnu ar gadernid yr amddiffyn i atal y gwrthwynebwyr rhag sgorio fu'r hanes am gyfnodau hir yn yr ail hanner, ac achub ar gyfleoedd prin i sgorio 2 gais, gan ildio un i'r ymwelwyr. Perfformiad cadarnhaol a buddugoliaeth haeddiannol o 29 - 17 gyda Mark Harris, Brandon Davies, Daf Waters a Gruff Owen yn sgorio'r ceisiau.

Gêm bant yn erbyn Swansea Uplands oedd nesaf. Tîm a symudodd o Adran 1 y Gorllewin Canol i Adran 1 y Gorllewin y llynedd, ac roedden ni'n disgwyl her a hanner. Gyda pherfformiad yr wythnos gynt yn ysbrydoliaeth, dechreuodd y Seintiau ar dân gyda'r pac yn drech na'u gwrthwynebwyr, a'r sgôr ar yr hanner oedd 8 – 17. Roedd yr hyder yn uchel a digon tebyg oedd hi ar gychwyn yr ail hanner. Fodd bynnag cafodd dau o reng flaen y Seintiau anafiadau wap iawn wedi'i gilydd, a newidiodd y momentwm gan roi cyfleoedd i Uplands. Rhoddwyd dwy garden felen i'r Seintiau, a rhwng hynny a chael ein cosbi yn y sgrymiau, roedd y gêm bellach yn bendant wedi troi o blaid ein gwrthwynebwyr. Trwy chwarae arbennig eu holwyr, ildiwyd sawl cais yn hwyr yn y gêm a'r Uplands aeth â hi o 44 - 22. Rhedodd y sgôr i ffwrdd wrthon ni ar ddiwedd y gêm, sy'n dangos pa mor gyflym mae momentwm yn gallu newid. Gwers galed yn yr adran anodd hon. Ceisiau gan Mark Harries, Daf Rees a Rhodri Evans.

Taith i Glwb Rygbi'r Coed Duon yn ail rownd y cwpan oedd nesaf. Gyda'r garfan ehangach yn chwarae, roedd yr hanner cyntaf yn gystadleuol iawn a'r sgôr yn agos ar yr egwyl. Yn y diwedd defnyddiodd y Coed Duon eu profiad a manteisio ar ein camgymeriadau, a'r tîm cartref enillodd 32 - 12. Profiad da i'r garfan a chawson ni groeso gwych gyda nhw. Pob dymuniad da iddyn nhw yn y rownd nesaf. Ceisiau gan Trei James a Jacob Davies. Gêm bwysig odd cartre yn erbyn Cydweli oedd nesaf ar yr 8fed o Dachwedd, ac roedd angen buddgoliaeth ar y ddau dîm i newid hanes eu tymhorau hyd yn hyn. Roedd hon yn gêm llawn tensiwn, ac er gwaethaf mwynhau rhywfaint o oruchafiaeth o ran tiriogaeth a meddiant, methwyd manteisio ar gyfleoedd. Ciciodd Cydweli ddwy gic gosb. Roedd y ddau amddiffyn yn gwbwl gadarn nes i'r Seintiau sgorio yn y pen draw drwy gais gan Gino Setaro. Troswyd y cais i roi buddugoliaeth i ni a gafodd ei chroesawu'n fawr cyn toriad yr hydref.

Mae'r tîm Ieuenctid wedi bod yn gwneud yn dda yn y mis diwethaf gan roi crasfa o 50-0 i Borthcawl yn y Plât gartref. Roedd hyder y tîm dal yn uchel adeg y gêm nesaf, sef buddugoliaeth o 7 - 41 oddi cartre yn erbyn Porth Tywyn yn y gynghrair. Bant i Amman Utd wedyn; carfan gref a nifer yn cynrychioli'r Scarlets, felly roedd disgwyl gêm galed. Dyna fel bu hi a cholli o 38 – 7. Felly taro'n ôl yw'r dasg nesaf, a gan i'r gêm erbyn Cwins Caerfyrddin gael ei gohirio o achos y tywydd gwael, herio Llangennech gartref ar y 14eg o Dachwedd dan y llifoleuadau fydd nesaf.

Nid oes gemau wedi bod gan y tîm datblygu yn yr wythnosau diwethaf, ac edrychwn ymlaen at gêm oddi cartre yn Aberaeron ar y 15fed o Dachwedd.

Gan ddychwelyd i'r gynghrair ar y 1af o Dachwedd, croesawon ni Dinbych-y-pysgod. Er gwaethaf gwytnwch cynnar y Seintiau ac ymdrech benderfynol, roedd grym wyth blaen yr ymwelwyr yn ormod, a rhoddodd hynny gyfleoedd i'w holwyr. Colled o 8 - 35 yn y diwedd. Cais gan Matt Done.

Gêm bwysig odd cartre yn erbyn Cydweli oedd nesaf ar yr 8fed o Dachwedd, ac roedd angen buddgoliaeth ar y ddau dîm i newid hanes eu tymhorau hyd yn hyn. Roedd hon yn gêm llawn tensiwn, ac er gwaethaf mwynhau rhywfaint o oruchafiaeth o ran tiriogaeth a meddiant, methwyd manteisio ar gyfleoedd. Ciciodd Cydweli ddwy gic gosb. Roedd y ddau amddiffyn yn gwbwl gadarn nes i'r Seintiau sgorio yn y pen draw drwy gais gan Gino Setaro. Troswyd y cais i roi buddugoliaeth i ni a gafodd ei chroesawu'n fawr cyn toriad yr hydref.
Mae'r tîm Ieuenctid wedi bod yn gwneud yn dda yn y mis diwethaf gan roi crasfa o 50-0 i Borthcawl yn y Plât gartref. Roedd hyder y tîm dal yn uchel adeg y gêm nesaf, sef buddugoliaeth o 7 - 41 oddi cartre yn erbyn Porth Tywyn yn y gynghrair. Bant i Amman Utd wedyn; carfan gref a nifer yn cynrychioli'r Scarlets, felly roedd disgwyl gêm galed. Dyna fel bu hi a cholli o 38 – 7. Felly taro'n ôl yw'r dasg nesaf, a gan i'r gêm erbyn Cwins Caerfyrddin gael ei gohirio o achos y tywydd gwael, herio Llangennech gartref ar y 14eg o Dachwedd dan y llifoleuadau fydd nesaf.
Nid oes gemau wedi bod gan y tîm datblygu yn yr wythnosau diwethaf, ac edrychwn ymlaen at gêm oddi cartre yn Aberaeron ar y 15fed o Dachwedd.

**Gwyndaf Williams**



**Llun Chris Rees**

## Clwb Pêl Droed Llanboidy

**Tymor 2025-26**

Mae tymor 2024-25 bellach wedi dechrau i Glwb Pêl-droed Llanboidy, gyda'r tîm cyntaf a'r ail dîm wedi chwarae nifer o gemau erbyn hyn. Mae'r adran iau hefyd wedi dechrau, ac yn aml yn chwarae ar foreau dydd Sadwrn.

**Tîm 1af**

Mae'r tîm cyntaf sy'n chwarae yn Adran 1 Ceredigion am 2025-26 wedi chwarae pedair gêm dros y mis diwethaf, ennill un a cholli tair.
Mae'r canlyniadau dros y mis diwethaf isod:
Hydref 11eg: Maesglas 3-1 Llanboidy (Frazer Wyatt)
18fed: Felinfach 3-0 Llanboidy
25ain: Crannog 0-3 Llanboidy (Jac Healey x 2, Gethin Scourfield)
Tachwedd 1af: Llanbodiy 3-5 Llechryd (Jac Healey, Ethan Ryan, Gethin Scourfield)

**2il Dîm**

Mae'r ail dîm yn chwarae yn Adran 3 Ceredigion yn nhymor 2025-26 o dan arweinyddiaeth Jason Reynolds, wedi chwarae tair gêm dros y mis diwethaf, ennill un, colli un a un gyfartal. Mae'r canlyniadau dros y mis diwethaf isod:

Hydref 18fed: Llanboidy 1-5 Aberteifi (Gwion Jones)
25ain: Llanboidy 2-1 Llandysul (Jason Reynolds, Gwion Jones)
Tachwedd 1ain: Ser Dewi 2-2 Llanboidy (Chris Bowen, Lewis Thompson)
Mae ymarferion y timoedd 1af a'r 2il ymlaen bob nos Lun ar Astro Canolfan Hamdden Caerfyrddin rhwng 8.00-9.00yh. Croeso cynnes i bawb.

**Adran Iau**

Mae'r timoedd adran Iau yn parhau i chwarae, a hynny fel arfer ar foreau Sadwrn. Diolch yn fawr iawn i'r holl hyfforddwyr sydd wedi bodloni cynorthwyo'r amryw o dimoedd hyd yma eleni. Rydym o hyd yn chwilio am chwaraewyr newydd. Croeso cynnes i bawb!

Diolch yn fawr iawn i'n holl noddwyr - rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol i'r Clwb. Gan ei bod yn dymor newydd, rydym o hyd yn chwilio am noddwyr newydd, felly os oes diddordeb gyda chi; cysylltwch. Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol.

**Rhodri Lewis**



**Tîm o dan 8**



**Tim o dan 10**



**Tîm o dan 12**



**Tîm o dan 14**

